

CLONC

www.clonc.co.uk - Yn aelod o Fforwm Papurau Bro Ceredigion

ISSN 1753-1071



9 771753 107001 >

Rhifyn 337 - 60c
Hydref 2015

Papur Bro ardal plwyfi: Cellan, Llanbedr Pont Steffan, Llanbedr Wledig, Llanfair Clydogau, Llanyby, Llanllwni, Llanwenog, Llanwnnen, Llanybydder, Llanyrcrws ac Uwch Gaeo a Phencarreg

**Diwrnod
Môr-ladron
Llanwenog**



Tudalen 19

**Cadwyn
Cyfrinachau
arall**



Tudalen 18

**Bowlwyr
Buddugol
Ceredigion**



Tudalen 23

Sioeau Lleol Calon Cymuned



Y plentyn
gorau i ddangos
ei yn Sioe
Llanfair oedd
Rhydian Quan



Buddugwyr Sioe Llanllwni



Rebecca
Miller a'r
marciau
uchaf
yn Adran
Goginio
Sioe
Llanfair.



Enillwyr gwobrau Ffair Ram



Sioe Llanllwni. Llun: Lleucu Meinir



Sioe Llanllwni.
Llun: Lleucu Meinir

Ysgol y Dderi



Diwrnod Cwpan Rygbi'r Byd yn Ysgol y Dderi.



Disgyblion blwyddyn 3 Ysgol y Dderi yn astudio hanes Tŵr Y Dderi.

2015

Papurau Bro Ceredigion Eisteddfod Ddwl

16eg o
Hydref

Drysau yn agor am 7.00
Dechrau am 7.30

Neuadd
Felin-fach

Mynediad £3

Arweinydd y noson
Cen Llwyd

Beirniaid
Trefor Pugh a
Donald Morgan

O'r Llwyfan

Dweud
Jôc

Sgets, gyda dim mwy na
chwech mewn nifer yn
y grŵp, i bara dim mwy
na phum munud. Testun
- Etholiad

Cystadleuaeth Dweud Stori a Gwneud
Stumiau/Synau i Bâr. Ceir y stori ar y
noson

Dyfarnir marciau ymhob cystadleuaeth o 5 i'r enillydd, 3
i'r sawl ddaw yn ail ac 1 i'r trydydd.
Cyflwynir tîws wedi ei noddi gan y Lolfa i'r papur bro sydd
â'r cyfanswm uchaf o farciau ar ddiwedd y cystadlu

Cefnogwch eich papur bro!



Y TINCER

Y Barcud

y Garthen

Y Dwrgi

Yr Angor

Llais Aeron

CLONC

Y GOLEN

Y Gambo

Papur Pawb

Gwaith Cartref

Ar gyfer plant oed cynradd - Peintio cymeriad cyfoes

Ar gyfer dysgwyr - Erthygl ddifyr ar gyfer papur bro
dim mwy na 300 o eiriau

Ar gyfer pobl ifanc oed uwchradd ac o dan 19 oed
- erthygl ddiddorol ar gyfer papur bro
dim mwy na 300 o eiriau

Llunio brawddeg, gyda'r geiriau yn eu tro yn cychwyn
gyda'r llythrennau - LL-A-I-N-D-E-L-Y-N

Gorffen lîmrig - Mae Cen yn meddwl mynd leni

Creu carden cyfarch ar gyfer unrhyw achlysur

Creu poster A4 ar gyfer Ffair Nadolig

Anfonwch eich gwaith cartref (o dan ffugenw, gyda manylion
cyswilt ac enw papur bro mewn amlen wedi atodi)
erbyn y 5ed Hydref at:

David Greaney, 4 Tŷ Mawr
Llanbadarn Fawr, Aberystwyth, SY23 3RF



www.facebook.com/clonc360



@Clonc360

Rhannwch eich newyddion lleol gyda Phapur Bro Clonc.



Aildrydarodd
[@Clonc360](#) neges
[@RhianonTanlan](#)
Medi 16

Oedfa Mudiad
Chwirydd y
Bedyddwyr yn Aberduar
[@BedyddGogTeifi](#)
Hoffi . Gwneud Sylw . Rhannu



Trydarodd
[@Clonc360](#)
Medi 12

Lle da i olchi ceir
heddiw yng Ngorsaf
Dân [#Llanbed](#)
[@mawwfire](#)
[@firefighters999](#)
Hoffi . Gwneud Sylw . Rhannu



Aildrydarodd
[@Clonc360](#) neges
[@RhianonTanlan](#)
Medi 12

Trystan a Llewelyn,
Megan ac Elin yn joio
[@GwylGolwg](#)
[@GwasgGomerPress](#)
Hoffi . Gwneud Sylw . Rhannu



Aildrydarodd
[@Clonc360](#) neges
[@AnwenButten](#)
Medi 6

Ennill rinc dwbwl, rinc
ac yn unigol. Ymlaen
i'r Alban i gynrychioli
Cymru Mehefin nesa.
Hoffi . Gwneud Sylw . Rhannu



Aildrydarodd
[@Clonc360](#) neges
[@Craffwr](#)
Awst 7

Prynhawn hyfryd yn
nathliadau Capel
[#BethelParcyrhos](#) yn
175 oed.
Hoffi . Gwneud Sylw . Rhannu



Aildrydarodd
[@Clonc360](#) neges
[@SteddfodLlanbed](#)
Awst 31

Lena Daniel yn
cyflwyno llywydd
y dydd, Ioan Wyn
Evans.
Hoffi . Gwneud Sylw . Rhannu

Pwy yw pwy?

Beth yw beth?

Golygydd:

Hydref Delyth Phillips, Llety Clyd, Stryd Newydd 422992
Tachwedd Elaine Davies, Penynant, Llanwnnen 480526
e-bost: golygydd@clonc.co.uk

Tim Golygyddol Elaine Davies, Siwan Davies, Dylan Lewis,
Marian Morgan a Delyth Morgans Phillips

Dylunydd y mis Dylan Lewis, Tŷ Cerrig, Cwmann 422349
Swyddog Dosbarthu Eifion Davies, Afallon, Drefach 480590
e-bost: bedwyr@btopenworld.com
Teipydd Nia Davies, Maesglas, Drefach 480015

Gohebwy'r Lleol:

Cellan Alwen Edwards, Awel Teifi 421001
Cwmann Gwyneth Morgan, Llety'r Dderwen 422922
Cwmsychbant Mary Davies, Maesglas, Drefach 480015
Llanwenog/Drefach Mary Davies neu Eifion Davies
Ffaldybrenin/Ffarmers Elfyn Davies, Troed y bryn, Ffarmers 01558 650507
Gorsgoch Eiddwen Hatcher, Tafarn Cefnhafod 434238
Llambled Janet Evans, Haulfryn 422856
Llanfair Dan ac Aerwen Griffiths, Pengarn 493407
Llangybi a Betws Mair Spate, Tŷ Capel Maesyffynon 493325
Llanllwni Dewi Davies, Glanafon 480218
Llanwnnen Elin Thomas, 1 Teras Sycamor 480239
Llanybydder Menna Jones, Ceginau Lifestyle 480257
Pencarreg Lynda Thomas, Dolgwm Uchaf 422270

Bwrdd Busnes:

Cadeirydd Dylan Lewis, Tŷ Cerrig, Cwmann 422349
e-bost: cadeirydd@clonc.co.uk
Is-Gadeirydd Marian Morgan, Rhyd-y-felin, Drefach 481855
Ysgrifenyddes Mary Davies, Maesglas, Drefach 480015
Trysorydd Nia Davies, Maesglas, Drefach 480015
e-bost: ysgrifennydd@clonc.co.uk

Ffotograffydd Tim Jones, Llainwen, Llambled 422644
Argraffwyr Gwasg Aeron, Aberaeron 01545 570573

- Mae Clonc yn aelod o Fforwm Papurau Bro Ceredigion.
- Gwerthfawrogi gwaith pob gwirfoddolwr a sicrhodd ymddangosiad y rhifyn hwn o Clonc. Os hoffai eraill ymuno â'r tîm, cysylltwch ag aelod o'r bwrdd busnes.
- Y mae pawb sy'n ymwneud â Phapur Bro Clonc yn gwneud hynny'n wirfoddol ac yn ddi-dâl er budd y gymuned leol. Nhw fel unigolion sy'n derbyn pob risg a chyfrifoldeb (cyfreithiol ac fel arall) gan dderbyn mai ar y telerau hynny y maent yn cyfrannu at y papur a'i ddosbarthiad.
- Sicrhewch newyddion eich ardal chi yn Clonc. Peidiwch â meddwl y bydd rhywun arall yn gwneud. Mae'n rhy hwy i feio neb os nad yw rhywbeth yn ymddangos yn Clonc.
- Ewch â'ch newyddion at eich gohebydd lleol, neu e-bostio golygydd@clonc.co.uk
- Gallwch adael newyddion a lluniau yn Crown Stores, Y Stryd Fawr, Llanbedr Pont Steffan.
- E-bostiwch eich eitemau ar gyfer y dyddiadur i ysgrifennydd@clonc.co.uk
- Defnyddiwch luniau o gamera cyffredin lliw, a du a gwyn. Ni fyddwn yn dychwelyd lluniau os na fyddwch wedi gwneud cais am hyn ar gefn y llun. Croesawn luniau digidol ar CD, cofbin USB, ac e-bost cadeirydd@clonc.co.uk
- Sicrhewch fod gennych ganiatad rhieni cyn tynnu lluniau plant i'w cynnwys yn Clonc. Rhoddir rhifynnau Clonc ar y wefan maes o law.
- Gofynnwn am dâl o £5.00 am roi "Diolch" yn y papur. Gellir tanysgrifio i Clonc am £17.50.
- Nid yw'r golygydd o reidrydd yn cytuno ag unrhyw farn yn y papur hwn.

Siprys

Tegwch ac annhegwch

Dyw bywyd ddim yn deg. Ond, a bod yn gwbwl onest, does neb erioed wedi addo i ni fywyd teg, naddo? Yn aml iawn yn ein gwaith ac yn ein gwahanol gylchoedd, fe welwn ni nad yw'r un rheolau yn perthyn i bawb. Mae wastad un neu ddau yn llywydd i fod y tu hwnt i unrhyw reol a thegwch.

Ym myd gwleidyddiaeth gwledydd Prydain er enghraifft, fe welwn ni nad yw ymdriniaeth rhai o'r cyfryngau yn gyfartal rhwng gwahanol pleidiau. Mae arweinydd un blaid yn ymwrthod â chanu anthem genedlaethol Lloegr, ac mae'r gwawd a'r cwyno yn ddiidrugaredd. Mae arweinydd plaid arall wedi gwneud rhywbeth llawer yn fwy amheus a syfrdanol yn nyddiau'i ieuencid, ond mae oriau'n mynd heibio heb i neb yngan gair am y peth ar wasanaeth newyddion y BBC er enghraifft.

Mae blwyddyn wedi mynd heibio ers refferendwm annibyniaeth yr Alban, ac fe gofiwn ni bryd hynny cymaint o rym oedd gan y cyfryngau i ddarlledu'r hyn oedden nhw eisiau'i ddarlledu, a rhoi'u gogwydd eu hunain ar y datblygiadau. Yn nes adref, yma yng Nghymru, a allwn ni ddweud mewn difrif calon ein bod ni'n cael ein trin yn gyfartal – o ran tegwch, heb sôn am adnoddau?

Beth amdanom ni fel cymuned ac fe unigolion? Tybed ydyn ni'n trin pawb yn gyfartal? P'un ai eich bod chi'n Gristnogion neu beidio, mae'n siŵr fod dysgeidiaeth Iesu yn rhywbeth y byddem ni i gyd yn licio'i wireddu: 'Nid oes rhagor rhwng Iddewon a Groegiaid, rhwng caeth a rhydd, rhwng gwryw a benyw, oherwydd un person ydych chiwi oll yng Nghrist Iesu.' (Galatiaid 3:28) Os felly, sut yr ydym yn ymateb i gri y ffoadur anghenus? Mae bywyd yn erchyll o greulon i filoedd ar lawr ein daear ni heddiw; annhebygol y down i'w hadnabod, ond eto i gyd, gallai'r bobol yna fod yn ni, petaen ni wedi cael ein geni yn Syria, Afghanistan neu Irac. Tybed ydyn nhw'n codi'n y bore, heb ddim materol o'u cwmpas, ac yn teimlo fod bywyd yn deg?

Cloncen

O'r Cynulliad gan Elin Jones AC




Mae tranc ffoaduriaid o Syria a gwledydd eraill wedi bod yn amlwg yn y newyddion. Mae'n destun balchder i mi fod pobl Ceredigion eisoes yn trefnu casgliadau ac yn codi ymwybyddiaeth trwy ddigwyddiadau. Cefais gyfle i annerch cyfarfod y grŵp newydd 'AberAid' ar prom Aberystwyth, gan hefyd drosglwyddo'r neges yn ôl i Lywodraeth Cymru fod angen cynllunio i gynnig cymorth dyngarol. Daeth mater y ffoaduriaid yn bwnc trafod hefyd mewn cyfarfod o Sefydliad y Merched y bŵm yn ei annerch ym Mydroilyn. 'Merched mewn gwleidyddiaeth' oedd testun cychwynnol y sgwrs, ond fe aeth hi'n drafodaeth fywiog o sawl pwnc – o Syria i'r Alban a thu hwnt!

Rwy' hefyd wedi bod yn llafar wrth gefnogi'r syniad o'r Eisteddfod Genedlaethol yn dychwelyd i Geredigion yn 2020. Mae hi wedi bod llawer yn rhy hir ers y dair brifwyl lwyddiannus yn 1976 (Aber-teifi), 1984 (Llambled) ac 1992 (Aberystwyth) a gobeithio y meddir cynnig gwahoddiad y tro hwn. Mae diwylliant eisteddfodol Ceredigion yn gryf. Gwelais hynny yn glir iawn wrth fynychu eisteddfod Cwmystwyth – y cyntaf a gynhaliwyd yn y fro ers blynnyddoedd lawer, a theyrnged gwych i waith Merêd.

Yn y Cynulliad, mae tipyn o ffocws ar hyn o bryd ar faterion ieuchyd – pwnc yr wyf yn llefarydd drosti. Rwy' eisoes wedi cyhoeddi nifer o syniadau ar gyfer gwelliannau sydd mor angenrheidiol i'n gwasanaeth ieuchyd; recriwtio mwy o feddygon a staff, sicrhau diagnosis gyflymach, ac integreiddio llawn rhwng gwasanaethau ieuchyd a chymdeithasol. Rwy'n edrych mlaen i drafod rhain yng Nghynhadledd Plaid Cymru a fydd eleni yn dychwelyd i Aberystwyth. Ac eleni mae gennym ymwelydd nodedig iawn sef Nicola Sturgeon, Prif Weinidog yr Alban. Bydd yn fraint ac yn bleser ei chroesawu i Geredigion.

CD Hiraeth am Cymru



Bu'r Canon Aled Williams Llanllwni, Kees Huysmans Llanbed, Caryl Glyn Morris Aberaeron, Huw Davies Llangeitho, Lyndsay Cameron Tregaron, wythawd Ffrindiau â Neli Jones yn cyfeilio, yn brysur yn paratoi cryno ddisg dwyieithog o emynau dan y teitl HIRAETH AM GYMRU, dan arweiniad Gerald Morgan, Tregaron yn ddiweddar.

Cewch wrando ar hen ffefrynau fel "Iesu, Iesu, Rwyf Ti'n Digon" ar Llwynbedw, Calon Lân, Mawlgan a Phantfyfedwen er enghraifft, yn ogystal â phedwar emyn newydd o waith Gerald Morgan er cof am bedwar unigolyn: Dewi Sant, Henry Richard, Yr Arglwydd Geraint o Bonterwyd a Gerwyn Morgan, Trebannau, Cellan, yn cael eu canu gan y gwahanol unawdwyr, gyda deuawdau gan Aled Williams a Kees Huysmans a chanu pedwar llais gan Ffrindiau.

Dyma anrheg gwreiddiol ar gyfer y Nadolig i bawb sy'n mwynhau canu emynau, neu i berthnasau a ffrindiau dros y ffin neu dramor sydd am ddwyn i gof atgofion o'u gorffennol.

Cenir un emyn yn dairieithog – yn Gymraeg a Saesneg gan Huw Davies, Llangeitho ac yn Sbaeneg gan Caryl Glyn Morris. Bu Mary Green, Trevelin, wrthi'n trosi un o emynau Gerald Morgan ar gyfer y ddisg.

Bydd hanner elw'r gwerthiant yn mynd tuag at sicrhau parhad addysg Gymraeg yn y Wladfa. Helpwch ni i'w helpu.

Cost: £5.99. Ar gael o Medical Hall a'r Swyddfa Bost yn Nhregaron neu drwy'r post oddi wrth: Gerald Morgan, Hafod Wen, Pwllswyddog, Tregaron, Ceredigion, SY25 6JG. Cost yn cynnwys cludiant: £7.50 - Sieciau yn daladwy i Gerald Morgan.

TEIARS
HUW LEWIS
TYRES

HUWLEWISTYRES.COM
LLANBEDR PONT STEFFAN
01570 422221

Weldio D & W Welding

01570481153 / 07915543623

Caerwenog,
Penffordd,
Llanybydder,
Ceredigion,
SA40 9XG

Darparu gatiâu a rheiliau
haearn ac hefyd eich holl
waith weldio ac atgyweirio

Mwnci ffwnci

Brodweithio
a Phrintio Dillad.
Darparu
Dillad Gwaith
a Hamdden.

Sioned Green
a **Mared Jones**
Nantgwyn,
Heol Llanfair
Llambod
01570 423135
07811917799 /
07968821035
mwnciffwnci@hotmail.com

Gwasanaethau Coed
Teifi
Tree Services



Pob math o waith ar goed
Torri cloddiau * Plygu cloddiau
Wedi yswirio'n llawn
Dyfnbris am ddim
Coed tân ar werth

Lyn Davies
01239 851001 / 07796 682448

Sefydlwyd 1797

D. Lloyd a'i Feibion
Glanrwyth, Pumsaint,
Ffôn: 01558 650209 a 650451,
Ffacs: 01558 650440

Masnachwyr coed
a nwyddau adeiladu
a ffensio o bob math
Glo caled a glo meddal
o'r ansawdd gorau

Dyddiadur

ysgrifennydd@clonc.co.uk



HYDREF

- 1 Cwrdd Diolchgarwch Capel Seion, Cwrtnewydd am 7y.h. Parchedig Peter Cutts, Caerfyrddin.
- 2 Helfa drysor ceir gan Ysgol Llanwnnen yn gadael am 5.00yh o'r Ysgol.
- 3 Cynhadledd Flynnyddol Cymdeithas Enwau Lleoedd Cymru yn y Pafiliwn Rhyngwladol ar faes y Sioe Fawr yn Llanelwedd. Cofrestru ar wefan: www.cymdeithasenwaulleoeddcymru.org
- 3 Cyngerdd yn Neuadd Fictoria Llanbed er lles ffoaduriaid Syria am 7.00yh.
- 3 Cerddwyr Llanbed yn cerdded y rheilffordd. Cwrdd yn y Rookery am 10yb neu yn Llanilar am 11yb.
- 3 Marchnad Cynnyrch a Chrefftau yn Neuadd Llanfair Clydogau rhwng 11yb a 3yp.
- 4 Cyngerdd gan Gôr Dwyntant yng Nghapel Pantydefaid, Prengwyn am 7.00yh.
- 5 Cwrdd Diolchgarwch Capel y Bryn, Cwrtnewydd am 7.00yh. Pregethir gan Parch Alun Wyn Dafis.
- 5 Cwrdd Diolchgarwch Bethel Silian am 7.00yh. Parchedig Peter Cutts yn pregethu.
- 5 Cyfarfod Blynnyddol y Pwyllgor Llanybydder yn y Clwb Rygbi am 7.00 o'r gloch.
- 5 Cyfarfod Cyhoeddus Agored Coedwig Cymunedol Longwood yn Neuadd Fictoria am 7.30yh.
- 6 Cwrdd Diolchgarwch Capel Bethel, Drefach am 7.00yh a'r Parch. Emyr Lyn Evans yn pregethu.
- 6 Cyfarfod Agoriadol Aelwyd yr Urdd Llambod am 7.00yh.
- 7 Cyfarfod Diolchgarwch yn Eglwys Shiloh Llambod am 7.00yh. Y pregethwr gwadd fydd y Parch Peter Thomas Aberystwyth.
- 9, 16 a 17 Eisteddfod C.Ff.I. Sir Gaerfyrddin yn Neuadd San Pedr.
- 9 'Lampeter Little Prints' yn Llanllwni.
- 10 Marchnad y Bobl yn Neuadd Fictoria Llanbed rhwng 10yb ac 1yp.
- 11 Cwrdd Diolchgarwch Eglwys Llanwnnen, am 5.30 o'r gloch. Y pregethwr gwadd fydd y Parchedig Dafydd Aeron.
- 13 Cwrdd Diolchgarwch Capel Brynteg am 7.00yh. gyda'r Parch. Carwyn Arthur, Bwlchgwynt, Tregaron.
- 13 Cyfarfod Gwenynwyr Llanbed yn Neuadd Mileniwm Cellan am 8.00yh.
- 13 Cyfarfod Blynnyddol Ffair Fwyd Llanbed yn y Llew Du am 7.30yh.
- 14 Cwrdd Diolchgarwch Bethel Parcyrrhos am 7.00yh. gyda Gwyn Elfyn yn pregethu.
- 14 Cwrdd Diolchgarwch Capel Nonni, Llanllwni am 7.00yh. Gwasanaethir gan y Parch Beti Wyn James.
- 15 Hyfforddiant Defnyddio Diffibriliwr yn Neuadd yr Eglwys, Llanwnnen am 7.30yh.
- 15 Cwrdd Diolchgarwch Capel y Cwm am 7.30yh.
- 16 Eisteddfod Ddwl Papurau Bro Ceredigion yn Neuadd Felinfach.
- 16a17 Gŵyl Ddawns y Byd yn Neuadd Fictoria Llanbed.
- 18 Clwb Cerddoriaeth Llambod yn cynnal Cyngerdd yn Neuadd Bro Fana, Ffarmers.
- 20 Cymdeithas Hanes Llambod. 7.30yh yn Hen Neuadd, Y Brifysgol.
- 21 Cwrdd Diolchgarwch Ysgol Llanwnnen yn Neuadd y Pentref am 2.00yp.
- 22 Bywyd Gwyllt Cymru - Noson yng nghwni Iolo Williams, Neuadd y Celfyddydau am 7.00yh.
- 23 Pwyllgor R.A.B.I Ceredigion yn cynnal Cinio Cig Eidion yn Llanina, Llanarth7 ar gyfer 7.30 yn Llanina.
- 23 Lansiad CD Côr Corisma yng Nghanolfan Gymunedol Cwmamant am 7.30 yr hwyr.
- 23 Noson Agoriadol Swyddogol Neuadd yr Hafod, Gorsgoch am 7.00yh.
- 24 Marchnad y Bobl yn Neuadd Fictoria Llanbed rhwng 10yb ac 1yp.
- 25 Cwrdd Diolchgarwch Capel Alltlyblaca am 7yh gyda'r Parch Goronwy Evans yng ngofal y gwasanaeth.
- 26 Noson o Adloniant yng Nghwmni Hywel Gwynfryn am 7.30yh yn Festri Aberduar, Llanybydder.
- 26 Tocynnau yn £4 oddi wrth Susan Evans ar 01570 480768.
- 26 Derbyn newyddion CLONC.
- 27 Noson Bingo gan Sefydliad Prydeinig y Galon yng Nghlwb Rygbi Llanybydder.
- 29 a 31 Eisteddfod C.Ff.I. Ceredigion.
- 30 Parti Calan Gaeaf yng Ngwesty'r Llew Du, Llanybydder am 6.30yh.
- 31 Eisteddfod Gadeiriol, Pumsaint. Manylion pellach wrth Mair Williams ar 01558650292

TACHWEDD

- 4 Plygu CLONC yn Festri Shiloh am 4.00yp. Dewch i helpu eich Papur Bro.
- 5 Noson Tân Gwyllt yng nghae tu ôl i'r Llew Du yn Llanybydder rhwng 6.30 a 6.45.
- 5 Noson Tân Gwyllt Llambod, safle Gwili Tractors, 7y.h. Trefnir gan y Ford Gron.
- 8 Cwrdd Diolchgarwch Ysgol Sul Noddfa am 5.00yh.
- 20 Cyngerdd yn y Neuadd Bro Fana, Ffarmers yng nghwmni Côr Glannau Ystywyth o dan arweiniad Delyth Hopkins Evans.
- 21 Eisteddfod CFfi Cymru yng Nghanolfan Celfyddydau, Aberystwyth.
- 22 Oedfa Deuluol yn Noddfa am 5.00yh.
- 23 Trip gan Ferched Y Wawr, Llanybydder i Theatr Felinfach i weld Cwmni Bara Caws yn perfformio 'Difa'.
- 23 Derbyn newyddion CLONC.
- 27 Ffair Grefftâu Flynnyddol Pumsaint 2 - 6y.h. Elw at Gofal Cancr y Fron Cymru.
- 27 Noson Jas gan Glwb Cerdd Llambod ym Mar Undeb y Myfyrwyr am 7.30yh.
- 28 Ffair Grefftâu Flynnyddol Pumsaint 10yb - 4yp. Elw at Gofal Cancr y Fron Cymru.
- 28 Cymdeithas Kodály Cymru yn cynnal Cyngerdd yn Neuadd Bro Fama, Ffarmers.

RHAGFYR

- 2 Cyngerdd Nadolig a Marchnad Mentergarwch Nadolig Ysgol Llanwnnen yn Eglwys Llanwnnen 6.30yh.
- 5 Cyngerdd gan Bois y Frenni am 7.30yh yn Neuadd y Coniad Pumsaint. Manylion 01558 685439.
- 5 Ffair Nadolig Cylch Meithrin a Ti a Fi Llanllwni yn yr Ysgol Gynradd.
- 6 Cymanfa Garolau Lleisiau Bro Eirwyn yng Nghapel y Cwm, Cwmsychpant.
- 13 Ffair Nadolig yn Neuadd yr Hafod, Gorsgoch.
- 14 Merched y Wawr, Llanybydder yn canu carolau yn yr Anedd a Chwm Aur.
- 19 Parti Nadolig Pwyllgor Pentref Llanybydder yng Ngwesty'r Llew Du, Llanybydder.
- 20 Gwasanaeth Garolau a Chyngerdd blynnyddol yn cael ei cynnal yn Neuadd Bro Fama, Ffarmers.
- 24 Gwasanaeth Golau Cannwyll yn Hen Gapel Llwynrhydowen am 9.00yh.
- 25 Oedfa Nadolig yng Nghapel y Cwm, Cwmsychpant am 9.00yb.

Llanllwni

Ysgol Llanllwni

Hoffem ddiolch i'r Cyngor Bro am ei rodd o £1,000 i'r ysgol. Rydym yn gwerthfawrogi eich haelioni yn fawr. Hoci sydd gennym yn ein sesiynau Campau'r Ddraig tan hanner tymor. Mae eu sgiliau wedi datblygu dipyn yn ystod y sesiynau. Bydd Clwb yr Urdd yn dechrau ar ôl gwyliau hanner tymor. Cafodd disgyblion Blwyddyn 5 a 6 brofiad a mwynhad yn gweithio gyda Marc Griffiths o Radio Cymru.

Dyma enillwyr Clwb Cefnogwyr yr ysgol am fis Medi: 1af £10 – Jac Lloyd, 3 Bryndulais; 2ail £5 – Caryl Evans, Tawelfan, Bwlchgyroes; 3ydd £5 – Dilys Jones, Tirlan, Brechfa.

Cwrdd Diolchgarwch

Cynhelir Cwrdd Diolchgarwch Capel Nonni, Llanllwni ar nos Fercher, Hydref 14 am 7.00y.h. Gwasanaethir gan y Parchedig Beti-Wyn James. Croeso cynnes i bawb.

Wyres fach

Yng nghanol mis Medi, daeth Emrys a Linda Evans, Cau-nant yn ddad-cu a mam-gu pan anwyd wyres fach arall iddynt, Nansi Grug, merch i Heulwen a Huw yn Llanelli.

Gwellhad Buan

Dymunwn wellhad buan i Iris Evans Cefncoedisaf sydd wedi derbyn llaw-driniaeth yn ddiweddar.

Cylch Meithrin a Ti a Fi Llanllwni

Croeso cynnes i Leah sydd wedi ymuno â'r Cylch tymor yma. Gobeithio y byddi di yn mwynhau dy amser yn y Meithrin. Cafwyd noson lwyddiannus a llawn hwyl yng nghwmni Clive Edwards yn Nhafarn Talardd. Gwnaed elw o £535 ar y noson tuag at Cylch Meithrin a Ti a Fi. Diolch i bawb am eu cefnogaeth.

Thema'r tymor hwn yw y Jynghl ac yn ystod y tymor bydd ymwelydd o Edupets yn dod â gwahanol anifeiliaid i'r plant gael eu gweld. Ar 7 Hydref bydd y plant yn mynd i Sbri Di Ri yn Ysgol Bro Pedr. Ar ddydd Gwener 30 Hydref cynhelir parti Calan Gaeaf am 1yh i 3yh yn Neuadd yr Eglwys yn Maesycrugiau. Croeso cynnes i bawb a dewch i gystadlu mewn nifer o gystadlaethau, sef y pwmpen a'r gwisg ffansi orau!

Bydd Ffair Nadolig yn cael ei gynnal ar ddydd Sadwrn 5 Rhagfyr yn Ysgol Llanllwni. Mwy o fanylion i ddilyn.

Cylch Ti a Fi

Cynhelir amryw o weithgareddau yn ystod sesiynau Ti a Fi. Dyma'r gweithgareddau fydd ymlaen yn ystod mis Hydref: 2 Hydref Sian Ymwelydd Iechyd; 9 Hydref Lampeter Little Prints; 16 Hydref Messy Play; 23 Hydref crefft i'r parti

Calan Gaeaf.

Cynhelir Cylch Ti a Fi bob bore Gwener am 9:30yb - 11:30yb yn Ysgol Llanllwni. Croeso i rieni, gofalywyr, mam-gus a thad-cus ddod gyda'u plant i gymryd rhan mewn gwahanol weithgareddau a chyfle i gael sgwrs dros baned.

Priodas Arian

Llongyfarchiadau i Andrew a Gwyneth Lewis, Awel y Mynydd a fydd yn dathlu eu Priodas Arian ar Hydref 20. Mwynhewch y diwrnod.

Priodas Dda

Llongyfarchiadau i Gareth, Ffynnon-Newydd gynt a Manon, Coedan, Llanfechell ar achlysur eu Priodas ar 28 Awst yn eglwys Llanfechell, Sir Fôn.

Dyma benillion a gyfansoddwyd gan Catrin Bellamy Jones, Pant yr Hendy, Llanarth. Diolch iddi.

Ar Achlysur Priodas Gareth a Manon

Yr hwntws sydd 'di cyrraedd, 'Rôl croesi'r Fenai dlos, I ddathlu uniad dau yn un Ac i ddawnsio drwy y nos.

Wrth adael Sir Gaerfyrddin A bwrw lan sha'r north, Bu bron troi rownd yn Aber – O's ise passport i baso Borth?

Ond bwrw mla'n a wnaethom Gan brofi croeso mawr, A diolchiwn yn ddiffuant Am gael bod yn eich cwmni nawr.

Fe gofiwn Gareth bach mewn shorts Ac yn fugail yn nrama'r geni, Ond llais yn unig, gyda Tuds Bu Manon i ni, tan heddi.

O'i chlywed ar y radio Ma hon i weld yn hadnod Ac yn hoff o siarad weden i Fe ddewn ni'n dwy mla'n – dim problem!

Gareth Ffynnon newydd – Fel 'na fyddi byth i ni, Sy 'di gosod gwreiddiau bellach Ar yr ynys dros y lli.

A'r goeden sydd yn tyfu A'i ffrwyth sy'n drysor drud, Rwyf Efa Wyn yn angel fwyn, Yn gariad, gwerth y byd.

Ry'ch deulu bychan dedwydd, A'n dymuniadau ni Yw am ddyfodol hapus, iach Llawn cariad, i chi'ch tri.

Eglwys Sant Luc Llanllwni

Yn Eglwys Sant Luc yn ddiweddar bu dwy wasanaeth priodas. Ar 15 Awst priodwyd Bryn Evans a Charlotte Murray, Ty Capel Brynteg, ac ar 19 Medi priodwyd Leighton Rees a Kimberly Davies, Heol y

Gaer, Llanybydder. Pob bendith ar y ddau bâr yn eu bywyd priodasol.

Bedyddiwyd Alba Davies, merch James Davies ac Ashley Bell, Bro Einon, Llanybydder ar Orffennaf 26. Dymuniadau gorau i'r teulu bach yma hefyd.

Ar nodyn tristach, ar ddechrau Medi, claddwyd llwch David Thomas Jones, Trolon ym Mynwent yr Eglwys. Roedd Dave wedi byw yn yr ardal ers blynyddoedd, ac yn gymeriad cyfeillgar. Cydymdeimlwn yn ddwys â'r teulu, a chofiwn yn ddiffuant amdano.

Roedd tinc o dristwch yng ngwasanaeth 16 Awst gan ein bod yn ffarwelio â Mike a Rena Harrington, sydd wedi symud i dde Lloegr i fod yn agosach at y teulu. Mae Mike wedi bod yn was da i Eglwys Sant Luc, ac wedi gwasanaethu fel trysorydd ers nifer o flynyddoedd. Dymunwn yn dda iddynt yn eu cartref newydd. Pob lwc i Alice James, ein trysorydd newydd.

Dymuniadau gorau hefyd i Mrs Sarah Jones, Sarn Helen sydd wedi dod adre o'r ysbyty ar ôl cwmp, ac i Mrs Myra Downer, Llwynonn sydd wedi dod adre yn dilyn llawdriniaeth.

Mae Undeb y Mamau wedi ail ddechrau'r tymor gydag ymweliad â Gerddi Norwood, Llanllwni. Buont yn ddigon lwcus i gael prynhawn sych a chyfle i gerdded hyd a lled yr ardd. Rhyfeddwyd at y gwaith caled mae Crispin wedi ei gyflawni. Diwedddwyd gyda phaned yn y caffi, a braf oedd croesawu Mrs Eirian Williams yn aelod newydd atom. Cymun fydd ein cyfarfod mis Hydref, ar yr ail ddydd Mawrth.

Llongyfarchiadau i Owain Davies, Gwndwn ar ei lwyddiant yn arholiadau lefel A, a dymuniadau gore iddo yng Ngholeg Gelli Aur. Bydd ein cwrdd Diolchgarwch ar Hydref 1, a swper y Cynhaeaf i ddilyn ar yr 2il o'r mis.

CFfI Llanllwni

Ar 31 Awst, cynhaliwyd ein Sioe a Threialon Cŵn Defaid blynyddol, ac unwaith eto eleni, roedd yn ddiwrnod llwyddiannus iawn. Braf yw cael dweud bod ein amcan elw yn £1850. Os oes unrhyw un am roi cyfraniad i'n elusen sef Ysbyty Bronglais, Aberystwyth, ac heb gael y cyfle, mae dal croeso i chi wneud. Llywydd y dydd oedd Mr Eilian Jenkins, Tanfforddgo, a diolch iddo am ei gyfraniad hael. I orffen y diwrnod, cynhaliwyd sioe fideo gwartheg ynghyd ag ocsiwn yn Nhafarn Talardd. Diolch i bawb a gyfrannodd tuag at y diwrnod mewn unrhyw ffordd.

Dyma restr o holl enillwyr y dydd: Ceginio – Elen Jones, Felingelli; Blodau – Janet Jones, Dwyllan; Llysiau – Eric Jones, Dwyllan; Lluniau – Carol Davies; Cyffeithiau



Llongyfarchiadau mawr i Alwena Mair Owen a enillodd darian ar yr Unawd dan 8 oed yn Adran Agored yn Eisteddfod Rhys Thomas James Pantyfedwen ddiwedd mis Awst.

Hefyd yn cael cyntaf ar yr Unawd a Llefaru dan 8 oed yn Eisteddfod Tymbl.

a Gwin – Keith Jones, Penllain; Adran Cynnyrch Fferm - Gwarallt; Adran y Plant - Dan 7 – Tudur George, Haulfryn; 7-11 – Alaw Jones, Blaenwaun; 12-16 – Nerys Jones, Pengrug; Adran y Defaid - Defaid Iseldir – Blaenwaun; Defaid Ucheldir – Highview; Pencampwyr Defaid – Jones, Penlangwmws; Adran y Gwartheg - Gwartheg Godro – Gwarewm; Gwartheg Beef – Blaenwaun; Pencampwyr Gwartheg – Marshall, Ystrad Corrwg; Treialon Cŵn Defaid - Novice South Wales – Shannon Conn; Open South Wales – Shannon Conn; Open National – Alastair Lyttle.

Ar ddechreuad blwyddyn arall yn y CFfI eleni, roedd ein noson o 'Sausage a Cider' er mwyn croesawu aelodau newydd y clwb, a rhaid dweud roedd yn noson llawn sbort! Ac rwy'n siŵr fod pob aelod wedi mwynhau'r cwis a'r Eisteddfod Dafarn oedd yn dilyn yn yr wythnosau wedyn. Rydym yn brysur nawr yng nghanol ymarferion yr eisteddfod – pob lwc i bawb fydd yn cystadlu. Dymunwn lwc dda hefyd i'r aelodau hynny sydd yn dechrau cyrsiau mewn gwahanol colegau – byddwn yn gweld eich eisiau!

**Rhifyn Tachwedd
Yn y Siopau
Tachwedd 5ed**

**Erthyglau, Newyddion
a Lluniau i law erbyn
Hydref 26ain**

Plantos Bach

Chwant te neu goffi a sgwrs tra bod y plant yn chwarae mewn amgylchedd hamddenol gyda phobl debyg?! Cynhelir Plantos Bach bob bore Gwener 9.45-10.45 yng Nghanolfan y pentre. Dewch i ymuno â ni.

Ffair Ram

Cynhaliwyd y 25ain Ffair Ram ar gae pentref Cwmann ar y 12fed Medi. Cafwyd diwrnod teg o ran tywydd a chefnogaeth dda yn ystod y dydd.

Testun balchder eleni oedd cael dathlu chwarter canrif o gynnal y sioe bentref. Talodd Eirios Jones, Cadeirydd Ffair Ram, deyrnged i'r gwirfoddolwyr dros y blynyddoedd. Cafwyd arddangosfa o bosteri ac adroddiadau papur newydd yn y ganolfan hefyd.

Cafwyd gweithgareddau llwyddiannus yn ystod y dydd o dan lywyddiaeth Mr a Mrs Dafydd a Delyth Jones, Ffosyffin. Cafwyd araith bwrpasol gan Meleri'r ferch ar eu rhan.

Cafwyd cystadlu brwd ym mhob cystadleuaeth yn yr adrannau isod ac arddangosfa arbennig o dda o hen beiriannau.

Gwerthwyd y cynnyrch ar ddiwedd y dydd gan Ann Davies a chodwyd swm sylweddol tuag at Nyrsys Macmillan.

Dyma enillwyr y Gwobrau: Adran Fferm – Gareth Russell, Llysiau a Ffrwythau – Stan Evans, Blodau – Muriel McMillan, Coginio – Pat Jones, Cyffeithiau / Gwinoedd – Helen Roberts, Ysgol Feithrin – Eli Griffiths, Dosbarth Derbyn – Deina Evans, Blwyddyn 1 a 2 – Ellie Gregson, Blwyddyn 3 a 4 – Casi Gregson, Blwyddyn 5 a 6 – Gwenllian Llwyd, Ysgol Uwchradd – Shannon Jones, Arlunwaith a Ffotos – Helen Davies, Crefftiau Cefn Gwlad – Alun Jones, Gwaith Llaw – Eirlys Jones, Adran y Defaid – Felindre, Cwpan Sialens Felindre Uchaf – Stan Evans, Cwpan Sialens Felindre Isaf – Hendai, Cwpan Sialens Wyn a Mary – Carwyn Lewis, Cwpan Sialens Eric Harries – Tomos Jones, Cwpan Sialens Teulu Hendai – Carwyn Lewis, Cwpan Sialens Dalgety – Carwyn Lewis, Cwpan Sialens Bronwydd – Helen Roberts.

Hoffai'r swyddogion ddiolch i bawb a fu'n helpu ac am bob cefnogaeth.

Côr Corisma

Ar ddechrau blwyddyn arall, mae'n braf iawn gweld nifer o aelodau newydd yn ymuno â'r Côr.

Ein cadeirydd am y flwyddyn yw Lena Daniel gyda Rhian Haf Evans yn is-gadeirydd ac Eira Price yn drysorydd. Rydym fel Côr yn gwerthfawrogi ymroddiad a chefnogaeth ein harweinyddes, Carys Lewis. Hi sy'n sicrhau bod yr ymarferion yn hwyliog ac mae'n

ein hysbrydoli i roi o'n gorau. Felly mae'r Côr mewn dwylo praff a medrus am eleni eto.

Bu'r misoedd diwethaf yn eitha' prysur i ni yn paratoi CD newydd o hoff ganeuon y Côr. Byddwn yn lansio'r CD ar nos Wener, 23 Hydref 2015 am 7.30 yr hwyr yng Nghanolfan Gymunedol Cwm-ann ac mae croeso i chi ddod i ymuno â ni ar y noson.

Dros yr wythnosau diwethaf hefyd, rydym wedi cael blas yn cystadlu mewn eisteddfodau lleol ac wedi cael cryn lwyddiant. Yn Eisteddfod Rhys Thomas James, Llanbed, cafodd y Parti Unsain y wobwr gyntaf a'r Ensemble Lleisiol yr ail wobwr. Ar ddechrau Medi, daeth y Parti Canu yn ail mewn cystadleuaeth gref yn Eisteddfod Tregaron.

Os oes chwant gennych i ymuno â ni, rydym yn cwrdd bod yn ail nos Lun yng Nghanolfan Gymunedol Cwm-ann. Byddai'n braf eich gweld!

Diolch

Dymuna'r Canon Wynzie Richards, Maesteifi, ddiolch o waelod calon am yr holl garedigrwydd a ddangoswyd iddo mewn gair a gweithred yn ystod ei ben-blwydd arbennig.

Cydymdeimlo

Trist iawn oedd clywed am farwolaeth annisgwyl Dilys Godfrey, 41 Heol Hathren yn ysbyty Glangwili fore Gwener, Medi 11. Cydymdeimlwn yn ddwys ag Emyr, Aled, Lyn, Ann a'u teuluoedd o golli mam a mam-gu.

Genedigaeth

Llongyfarchiadau i Siân a Kevin, 4 Cwrt Deri ar enedigaeth merch fach, Elan Georgina, wyres i Ann a Colin Douch, Maestroiddyn a Peter Thomas, Penddol a gor-wyres i Mrs Ruthie Williams, Rhiwlas. Pob dymuniad da i'r teulu bach.

Ysbyty

Gwellhad buan i Tony Lewis, Brynawel sydd newydd gael llawdriniaeth yn ystod y mis.

Neuadd Sant Iago

Clwb 125 – mis Awst - 1. Rhian Evans, Llysycoed, Cwmann, 49. 2. Eleanor Davies, Pleasant View, Llambled, 12. 3. Ceinwen Evans, Gelinfach, Cwmann, 28. 4. Veronica James, Caeralaw, Cwmann, 126. 5. Huw Davies, Verlands, Cwmann, 95. 6. David Davies, Glenview, Pencarreg, 35. 7. Ruth Jones, Heol y Maes, Pencarreg, 20.

Clwb 225 – mis Awst

1. Mr a Mrs Kidby, Erwaun, Parcyrrhos, 190. 2. Owain a Bethan Jones, Tryweryn, Cwmann, 150. 3. Mr M. Norman, Brynbedw,



Carys, Megan ac Eira yn cyflwyno £1,000 ar ran Corisma i Mark Williams Cymdeithas Alzheimer's, sef yr elw a wnaed ar ddiwrnod y Bêc Off.



Parti Unsain Corisma yn ennill y wobwr gyntaf yn Eisteddfod Llanbed.



Casglodd CFFI Cwmann fil o bunnoedd gyda chymorth punt am bunt Banc Lloyds, Llambled, wrth gynnal noson o rasio moch yng nghlwb Rygbi Llambled yn ddiweddar. Mae aelodau y clwb a'r banc yn y llun.

Cwmann, 66. 4. Tegwen Morris, d/o. Brynathren, Cwmann, 53. 5. Gwen Jones, Gellidewi Uchaf, Cwmann, 89. 6. Ronnie Roberts, Bryn View, Parcyrrhos 31. 7. Dana Jones, Cae Coedmor, Cwmann, 211. 8. Ann Roberts, Bryn View, Parcyrrhos, 164. 9. Mr I. Jenkins, Pennant, Rhydcymerau, 118. 10. V. Abel, Neuadd Deg, Cwmann.

Llongyfarchiadau

Llongyfarchiadau i Beca Ann Jones, 1 Cwrt Deri, Cwmann ac Elan Jones, Araul, Cwmann, ar

basio arholiad canu Gradd 4 gyda Rhagoriaeth.

Sefydliad y Merched

Ar nos Lun 6 Gorffennaf croesawodd ein Llywydd Noelen y wraig wadd sef Delyth Morris Jones o Bonterwyd. Siaradodd Delyth am hanes ei mam a gafodd ei hanfon i Lundain yn ferch ifanc iawn i weithio yn yr East End. Yr oedd yn waith caled a'r gyflog yn fach. Ymhen amser aeth i nyrsio a dod yn Nyrs Gymunedol ym Mhontarfynach. Roedd hyn eto'n

Cwmann

waith caled lle'r oedd rhaid iddi fynd o amgylch ar feic am filltiroedd lawer a hynny am gyflog bach. Dangosodd Delyth ei chasgliad o wahanol offer byddent yn eu defnyddio yn yr amser yma tua 1930 ac hefyd sgarffiau, menyg a mentyll o eiddo ei mam. Diolchodd Avril iddi am noson ddiddorol a hwylus.

Ar ôl te wedi ei baratoi gan Avril a Veronica cafwyd cyfarfod busnes.

Bydd cyfarfod diolchgarwch ar 16 Medi yn Eglwys St Pedr, Caerfyrddin. Bydd Avril, Mary, Noelene, Gwyneth ac Elma yn mynd i'r cyfarfod.

Bu Gwen a Noelene yn ein cynrychioli yn y Grêt Welsh Bêc-off gafodd ei drefnu gan Gôr Corisma ddydd Sadwrn 4 Gorffennaf i godi arian i elusen Alzheimers.

Diolchodd Noelene i bawb am yr anrhydedd o gael mynd i'r Arddwest ym Mhalas Buckingham a rhoddodd dipyn o'r hanes i ni.

Ar nos Lun Medi 7 aeth criw ohonom i Gaerfyrddin i ymweld â Siop Pili Pala. Siop esgidiau ffasiynol. Croesawodd y perchennog Eileen ni a chawsom ddiod blasus a bisgedi sawrus. Ymunodd ei mab â ni a bu'r ddau yn rhoi tipyn o hanes sut aethant ati i sefydlu'r siopau, gan fod ganddynt siop yn Arberth hefyd. Hobi oedd y fenter i fod ar ôl ymddeol o fusnes teuluol arall, ond mae wedi datblygu yn fusnes llawn amser llwyddiannus. Wedyn, cyfle i edrych, gwisgo a phrynu rhai o'r esgidiau moethus. Diolchodd Mary i'r ddau am eu croeso a'r cyfle i siopa mewn tawelwch.

Gadael Caerfyrddin a phawb yn ceisio dyfalu ble fyddai'r ymweliad nesaf.

Ymlaen â ni i bentref Bronwydd a thafarn Nantcelynen, lle'r oedd Noelene a Gwyneth wedi trefnu pryd o fwyd blasus i ni. Cyn mynd ymlaen â'r cyfarfod busnes diolchodd Mary i'r perchnogion a'r staff am y bwyd a diolch i Noelene a Gwyneth am noson lwyddiannus.

Roedd Avril a Dilys wedi ennill gwobr yn y clwb 200 Mis Gorffennaf.

Ein cyfarfod nesaf fydd ein Cinio Blynnyddol yn y Clwb Rygbi ar 6 Hydref.

Bethel Parc-y-rhos 1840-2015

Cafwyd dathliadau yn ddiweddar yng Nghapel Bethel Parc-y-rhos i nodi 175 o flynyddoedd bodolaeth achos yr Annibynwyr yn yr ardal.

Yng Nglan-rhyd Parcyrrhos bu Annibynwyr yr ardal sefydlu eu cartref parhaol cyntaf cyn adeiladu Bethel, ac felly yno dechreuwyd y bererindod ar y 6ed Medi eleni. Daeth tyrfa o ddeugain a mwy i gydgerdded traed yr hen ddisgyblion gynt.

Braint i Alun Jones, Glan-rhyd oedd cael dweud gair cyn ymadael, a byrdwn ei neges oedd, "Boed i'r brwdfrydedd sydd yn y nghanol i gael ei hau yn eich calonnau

chwithau, ac i lawenhau yng nghymdeithas yr Arglwydd Iesu. Ymunwch felly gyda fi i ail fyw y brwdfrydedd hwnnw ar Sul Mawrth 25ain 1860 wrth gerdded i Fethel am y tro cyntaf."

Cafodd y pererinion eu hysbrydoli i ganu Calon Lân wrth gerdded o'r briffordd lawr am Fethel lle oedd tyrfa niferus yn ein disgwyl.

Clod i'r aelodau a'r plant ifanc presennol am gyflwyno oedfa deilwng o'r cyndadau a mamau ddwy ganrif yn ôl. Cyflwynwyd y gwasanaeth mewn gair, llun a gân, a diolch i bawb a gyfrannodd i oedfa ysbrydoledig.

Yn bendant gwiredwyd her y Parch T Burgess Jones yn 1960 i'r aelodau fel y gwelwyd ar daflen y dathlu "Codi'n cap i'r gorffennol, torchi'n llewys i'r dyfodol". Her a gawsom yn y sgript neu ddrama cyflwynedig yn y gwasanaeth sef Cofio, Dathlu ac Ystyried y dyfodol.

Balchder mawr oedd gweld aelodau a chyn blant yr Ysgol Sul yn bresennol o Gaernarfon, Wrecsam, Henffordd a Hwlfordd, gyda'r ifancau ond 9 mis oed a'r hynaf yn nawdeg.

Yn y capel ceir arddangosfa ddiddorol iawn gyda'r hanes wedi'i gofnodi ar linell amser sydd yn ymestyn 8 llath. Dewch i'r cwrdd diolchgarwch ar Hydref 14 a chewch ail fyw Bethel y gorffennol. Dydd fydd yn aros yn y cof am byth.

Gellir gweld mwy o luniau'r dathliadau a chopïau pdf o'r arddangosfeydd ar wefan Bethel hefyd: www.bethel.btck.co.uk

Y Gofeb



Mae Cyngor Cymuned Pencarreg wedi sicrhau bod y llythrennau sydd ar y gofeb yng Nghwmman wedi eu hadnewyddu gan arian.

Cofrestrwch ar ein gwefan gymunedol

www.clonc360.cymru

er mwyn cyfrannu eich stori chi.

Storws y Beirdd

Cystadleuaeth y Gadair yn Eisteddfod Rhys Thomas James Llanbedr Pont Steffan



Englyn yr un i saith bardd neu awdur gan Endaf Griffiths, Cwmsychpant, bardd y gadair 2015.

I feirdd a llenorion de Ceredigion – ddoe a heddiw

Alun Cilie

(wrth basio fferm y Cilie ychydig dro yn ôl)

Unig yw'r caeau yno ac unig
yw'r gân bellach hebddo,
ond mae mwyalchen heno
er hynny'n canu'n y co'.

Caryl Lewis

(ar ôl darllen Martha, Jac a Sianco)

Yn ein hwyl neu yn ein halaeth yr un
yw'r her ym myd amaeth
i ni oll, a Caryl wnaeth
hanesion o'n hynysiaeth.

T. Llew Jones

Tra bo môr, tra bo miri yn yr iaith
ar hyd draeth Cwmtidu*
bydd 'na drysor o stori
yn ogofau d'eiriau di.

*Ynganir yn nhafodiaith Dyfed('Cwmtidi')

Idris Reynolds

Ar lan y môr y gân orau a ddaw
a'r hen ddweud o'r tonnau'n
creu ego ar y creigiau
gan lenwi, bywiogi'r bae.

Dic Jones

Draw i storws daw dy eiriau yn wyn
o wenith o'r caeau
tra pery swyn gwanwynau
a'r hen ias mewn trin a hau.

Dylan Iorwerth

(newyddiadurwr, llenor, bardd ac i
griw'r Ffermwyr Ifanc, sgriptiwr)
Pan wyt ti'n agor stori, yn tywallt
dy awen i gerddi
neu'n Ddylan llawn o ddwli,
yr un wyt - ein geiriau ni.

Llew

O'r Cyngorau Bro



CYNGOR BRO LLANLLWNI

Cynhaliwyd y Cyfarfod mis Medi yn Neuadd Gymunedol Llanllwni. Cyng Dewi Davies (Cadeirydd), Eirlys Owen (Clerc). Croesawodd y Cadeirydd yr aelodau i'r cyfarfod a dymunwyd yn dda i Tom Bowen ar ddathlu ei ben-blwydd yn 70 oed yn ddiweddar.

Plismona - Croesawyd Alice James i'r cyfarfod. Cafwyd trafodaeth ar ddiogelwch yn gyffredinol.

Cadarnhawyd cywirdeb cofnodion mis Gorffennaf gan Eric Davies ac eiliwyd gan Eurig Thomas. Arwyddwyd y cofnodion gan y Cadeirydd.

Diwrnod Hwyl 11 Gorffennaf - Yr oedd y diwrnod hwyl wedi bod yn llwyddiannus a diolchwyd i bawb am y gefnogaeth. Penderfynwyd danfon llythyr o diolch i Glandulais am gael defnyddio'r cae i barcio yn ystod y dydd.

Y Cae Chwarae - Cadarnhawyd bod y maes chwarae a'r adnoddau wedi eu harchwilio yn fanwl yn ystod yr wythnosau diwethaf gan Tom Jones ac Eric Davies. Nid oedd dim damweiniau i'w cofnodi ar y cae chwarae ond penderfynwyd y byddai'r Clerc yn archebu llyfr i gadw cofnod pe byddai damwain yn y dyfodol. Diolchwyd i Melfyn Evans am ei waith, ac i'r gwirfoddolwyr a fu'n gosod y ford bicnic a'r seddau yn y lle priodol.

Cais am Grant Llwybrau Diogel mewn Cymunedau - Nid oedd y Clerc wedi derbyn unrhyw wybodaeth ond cafwyd eglurhad y byddai'r penderfyniad yn cael ei wneud yn ystod y pythefnos nesaf.

Gwefan Llanllwni - Penderfynwyd y byddai'r Clerc yn gwneud ymholiadau erbyn y cyfarfod nesaf.

Tyllau yn yr Hewl - Glennydd - Cwmderi. Fferm Talardd - Aberceiliog. Ffynonddrain - Gwarewm.

Diolchodd y Cadeirydd i bawb am eu presenoldeb a'u brwdfrydedd dros y plwyf. Bydd y cyfarfod nesaf yn Neuadd Gymunedol Llanllwni ar 9 Tachwedd am 8yh.

Oes angen cyngor arnoch?

Mae gennym arbenigedd cyfreithiol mewn sawl maes, megis:-

1. CYFRAITH TIR,
2. EWWYLLYSIAU A'U PROFANT,
3. TRETH ETIFEDDIAETH A MODD I'W LEIHU,
4. GWAITH LLYS O BOB MATH.

Os hoffech fwy o wybodaeth mae croeso i chiwysylltu â ni.

ADVE

ARNOLD DAVIES VINCENT EVANS
CYFREITHWYR

33 Stryd Fawr, Llambled
☎ 01570 422517 ☎ 01570 423244



Gwyn Lewis

Cyf

Cyflenwi a gosod:
Carpedi a Feinyl, Lloriau Diogel,
Cladinau Wal,
yn ogystal â Gwelyau,
Pennau Gwelyau a Rygiau.

43 Stryd y Bont
LLANBEDR PONT STEFFAN
Ffôn a Ffacs: 01570 423984
Adref: 01570 423349



Gall y driniaeth yma eich helpu, os ydych yn dioddef o'r canlynol:

* Blinder / diffyg egni

* Meigrin
Serauca

* Irritable Bowel Syndrome

* Menstrual problems
* a mwy

Os am ragor o wybodaeth
cysylltwch â Carol Rees

01545 590164

07929 559561

Tim Jones



Ffotograffydd

Llainwen, Rhodfa Glynhegog
Llanbedr Pont Steffan

☎ 01570 422644

**The Wash
Tub**

Heol y Gogledd
(gyferbyn â'r gogolofn)
01570 423647

Gwasanaeth o safon uchel:
smwddio, golchi, sychu
a glanhau.
Ac yn golchi duvets.



MIS y PaPur Newydd

Colofn Dylan Iorwerth

Y colofnau anodda' i gyd

Y peth mwya' anodd yn y byd ydi sgrifennu am rywun agos. Llauer mwy anodd na chofio am rywun pell.

Mae pob un ohonon ni'n dri pherson o leia' – mae gynnion ni ddelwedd gyhoeddus i ddiethriad, personoliaeth ychydig yn wahanol i ffrindiau, a chalon wahanol eto ymhlith ein perthnasau agos a chyfeillion oes.

Ar yr aelwyd ac ymhlith eneidiau hoff cytûn y byddwn yn gallu cymryd pobl yn ganiataol, yn gallu fforddio bod yn ni ein hun. Ac, felly, wrth geisio cofio Mam-gu, mae gen i dair colofn i'w sgrifennu.

Mae un yn hawdd – y person cyhoeddus oedd wedi hyfforddi cenedlaethau o bobl ifanc mewn sgiliau fel trefnu blodau a chrefftau a, hyd yn oed, fel y clywson ni wrth i gyfeillion alw heibio, wedi beirniadu prawf 'Poise, dress and personality' ymhlith merched y Ffermwyr Ifanc.

Y wraig honno oedd Mary Davies, gwraig Defi Fet, a Mary Awel Teifi, Pentrebach, wedyn. A phawb yn sôn amdani fel menyw â thipyn o steil. Ac yn llawn mynd, yn gwibio yma ac acw yn ei Fiat bach pinc.

Cyn i rywun fynd, mae llawer heb ei ddweud. Dim ond wedyn y gwnaethon ni sylweddoli cymaint oedd ei dylanwad ymhlith cyfeillion a chydabod, yn cynnig cyngor a throsglwyddo gwybodaeth, yn gefn a chymwynaswraig.

Dyna'r ail berson. Y ffrind hwyliog, y storiwraig dda oedd yn llawn diddordeb mewn pob math o bobl a phethau, wrth ei bodd yn mentro ar grefftiau newydd, o greu crochenwaith i gwiltio, o wneud lluniau ffelt i orchuddion lampau.

Yn ystod y blynyddoedd diwetha' ers symud i ardal Llanbed, roedd Mam-gu wedi crynhoi cylch agos o gyfeillion clos; cymdogion newydd, rhai'n rhannu diddordebau ac ambell hen, hen ffrind oedd wedi dod y agos eto. Roedd hynny'n beth sbesial iawn.

Ond mae yna drydydd person. Yr un yr oedden ni yn ei hadnabod ar yr aelwyd, yn gyfuniad o lawer o'r ddau berson arall ond yn llawer mwy na hynny hefyd. Bob tro y byddwn ni'n colli rhywun, mae'n wir dweud mai dim ond wedyn, ymhen amser, y gwelwn ni'r bwlch. Yn achos rhywun fel Mam-gu, mae hynny'n fwy gwir nag erioed – dim ond yn y dyfodol y byddwn ni'n gweld cymaint o'n bywydau oedd ynghlwm ynddi hi.

Doedd bywyd ddim yn ddiflas os oedd Mam-gu o gwmpas. Roedden ni ein tri – Elaine, Luned a finau – yn gorfod bod ar flaenau ein traed pan oedd hi o gwmpas ... fel cael un o'r diwrnodau hynny pan fydd pob tywydd yn digwydd o fewn ychydig oriau.

Roedd Mam-gu'n gallu pregethu ... rhywbeth heb ei wneud, rhywbeth angen ei wneud, rhywbeth nad oedd yn ddigon da ... a'r broblem fwy' oedd ei bod hi, fynyca', yn iawn. Yn y tair wythnos ola' yn Ysbyty Glangwili, mi fyddai'r tri ohonon ni wedi rhoi popeth am gael un bregeth arall.

Doedd siarad di-liw ddim yn perthyn i Mam-gu ... roedd diferion o ddŵr ar y llawr yn golygu bod y gegin yn morio ... ac roedd ganddi dorreth o ddywediadau bachog o dafodiaith Pentrecwrt y bydd rhaid i ni, rywsut, eu cofio.

Disgrifiad o rywun lliwgar ei dweud oedd un o'r dywediadau hynny – 'rhywun â'r gair gwaetha' gynta' – ac roedd yn ddisgrifiad da o 'Mam-gu'. Y tu ôl i'r argraff beco-mo'r dam, roedd haelioni'n reddfol iddi.

Roedd hi hefyd wrth ei bodd gyda phobl, o bob math a lle a chefnidir. Ar fws neu ar fainc, mi fyddai Mam-gu wedi tynnu sgwrs gyda dieithriaid hollol a dod i wybod eu hanes i gyd, a rhoi ei hanes hithau.

Roedd pob tŷ lle'r oedd Mam-gu wastad yn llawn o bobl, nid yn llythrennol ond trwy'r siarad. Mi fyddai wrth ei bodd yn cofio am straeon a throeon trwstan, am ddywediadau ffraeth a chwithig a gwahanol gymeriadau'n datblygu'n chwedlau i'r teulu i gyd.

A, phan fyddai argyfwng go iawn, doedd neb yn fwy dibynadwy. Dim ffws o gwbl bryd hynny. Dim ond gwneud yr hyn oedd raid.

Dyna sut y daeth hi trwy bob argyfwng ... tan yr ola' un.

Cegin Gwenog, Abernant, Llanwenog

Gwasanaeth arlwygo cyflawn
ar gyfer pob achlysur:

- Bwyd Priodas
- Bwffe
- Te Angladd
- Digwyddiadau Maes

Hefyd yn Ystafell Weini cysurus
Clwb Rygbi Llambled yn gwneud:

- Cinio Dydd Sul 12.00 – 3.00
- Partion pen-blwydd ayb
- Ciniawau - Cyfarfodydd
- Bwyd Bedydd - Te Angladdau

*Bwydlenni unigol i ateb eich
gofynion chi – boed yn fawr neu'n fach*



Lifft
cyfleus
yn ei le i
fynd lan
llofft

Os am ragor o fanylion, cysylltwch â:

Tony a Mair Hatcher 01570 481230 / 07967 559683.

Cefn Hafod

Gorsgoch

Cyri bob nos Wener,
£6 y pen

Prydiau bwyd ar gael drwy'r
wythnos

Nos Lun– Nos Sadwrn

Bwyd Cartref a Chwrrw da.
Croeso cynnes i bawb!
01570 434 238

**W.D.
Lewis**
a'l Fab

Masnachwyr Amacchydol
Agricultural Merchants

Melin Mark Lane Mill

Llanbedr Pont Steffan
Ceredigion SA48 7AG

Tel: 01570 422540

Fax: 01570 423644

www.wdlewis.co.uk

Hefyd yn

Broneb Stores
Pumsaint, Llanwrda

Tel: 01558 650215



Cegin Coedlannau

*'Bwyd cartref ar gyfer
pob achlysur'*

* Cacenau pen-blwydd gyda llun
(ffotograff)

* Bwffe mawr neu fach

* Danteithion i de

* Pwdinau

* Arlwygo ar gyfer pob achlysur



Sirian Davies, Coedlannau

Fach, Cwrtnewydd,

01570 434 243

07815 962 045

Alec Page Gof



Gwaith metal o safon
i'r tŷ a'r ardd.

Dewch i drafod eich syniadau.

Yr Efail, Barley Mow,
Llambled.

01570 423955

www.alecpageblacksmith.co.uk

WILLIAMS & BOURNE

CYFREITHWYR.
COMISIYNNWYR LLWON

Trosglwyddiadau a phob
gwasanaeth cyfreithiol.
Ymweliadau â'r cartref yn bosibl.

**1 Sgwâr Harford,
Llambled**

☎ 01570 422206 ☎ 01570 423540

A thrwy apwyntiadau yn Nhregaron, Llanybydder,
Castell Newydd Emlyn a Chaerfyrddin.

Llangybi a Betws

Hamdden

Taenwyd ton o dristwch mawr dros ardal eang pan glywsom y newyddion fod Dilys Godfrey wedi huno. Roedd hyn yn sioc enfawr i lawer cymuned. Roedd yn wraig brysur, ddawnus a charedig, yn aelod mewn llawer cymdeithas, a hi oedd llywydd y gymdeithas Hamdden yn Llangybi. Cydymdeimlwn yn ddwys iawn â'i theulu a'i ffrindiau.

Bydd y cyfarfod nesaf yn Ysgol Y Dderi am 2.00 brynhawn Gwener, Hydref 2 pryd y ceir Cwis wedi ei baratoi gan Barry Williams. Dewch i gael sgwrs a phaned.

Merched y Wawr Y Dderi

Bu rhai o'r aelodau mewn cyngerdd yng Ngholeg Llambled yn ystod penwythnos y Mudiad. Cawsom ein gwir ddiddanu gan Bois y Gilfach ac yr oedd yn noson fendigedig.

Ar brynhawn Iau, Medi 16, ymwelwyd ag Amgueddfa Llambled. Cawsom groeso hyfryd a llawer iawn o wybodaeth am hanes lleol. Braf oedd clywed yr hanes gan y Bon. Selwyn Walters a gweld eitemau a oedd yn dod ag atgofion yn ôl. Diolchwyd ar ran y gangen am brynhawn diddorol, hanesyddol a chroesawus gan y llywydd Gwyneth Jones.

Cyn dychwelyd adref cawsom de prynhawn bendigedig a chroeso gwresog yng nghartref un o'n haelodau. Rhoddwyd y Raffl gan Irene Lewis ac fe'i henillwyd gan Eleanor Evans.

Bydd y cyfarfod nesaf ar Hydref 21 pryd y disgwylir Aneurin a Terwyn Davies i'n hannerch. Bydd y cyfarfod yma yn agored i bawb felly croeso cynnes i'r cyhoedd i Ysgol Y Dderi am 7.00y.h.

Ysgol Y Dderi

Hoffem dymuno pob hwyl i gyn-ddisgyblion Ysgol Y Dderi sy'n cychwyn eu haddysg uwchradd ym mlwyddyn 7 ym Mro Pedr, Ysgol Henry Richard ac Ysgol Uwchradd Aberaeron.

Llongyfarchiadau mawr i Miss Bethan a Sam ar enedigaeu eu mab,

Tomos Edwin. Mae pawb yn edrych ymlaen yn eiddgar at ymweliad cyntaf Tomos bach i Ysgol Y Dderi!

Llongyfarchiadau gwresog i Miss Fiona a Richard ar eu priodas dros wyliau'r haf. Dymunwn bob lwc a hapusrwydd iddynt.

Llongyfarchiadau mawr i'r holl blant fu'n llwyddiannus mewn amryw o Sioeau ac Eisteddfodau lleol dros yr haf.

Croeso cynnes i'r holl blant newydd sydd wedi ymuno â ni, yn y meithrin a thrwy gorff yr ysgol. Gobeithio y byddwch chi'n hapus iawn yn ein plith.

Cynhaliwyd gweithdy ffotograffiaeth gan Betsan Haf o gwmni Celf Calon gyda disgyblion blwyddyn 3, fel rhan o'u thema Gweledigaethau Newydd. Mae'r thema yn edrych ar hanes lleol trwy ffotograffiaeth ddigidol. Bu'r disgyblion yn tynnu lluniau o gwmpas y pentref dan arweiniad Betsan, ac yna crëwyd arddangosfa ddigidol o'u gwaith.


Aeth disgyblion blwyddyn 3 ar ymweliad â Fferm Penparc, er mwyn cael astudio hanes Tŵr Y Dderi. Braint llwyr yw cael gweld y tŵr yn agos, ac rydym yn ddiolchgar iawn i deulu Penparc am y croeso, ac i Odwyn am drefnu'r cyfan.

Cynhaliwyd Diwrnod Roald Dahl yng Nghyfnod Allweddol 2 i ddathlu bywyd a gwaith yr awdur byd enwog a aned yng Nghaerdydd. Y Twits oedd prif destun y diwrnod a chafwyd diwrnod hwylus dros ben.

Bu Pearly Freeman, ffotograffydd lleol yn siarad â disgyblion blwyddyn 4 am ei gwaith, ac am ei harbenigedd mewn ffotograffiaeth macro, hynny yw, defnyddio lens cryf i dynnu lluniau manwl iawn. Aeth y plant ati wedyn i greu portffolio o ffotograffiaeth macro.

Mae disgyblion blwyddyn 5 a 6 yn astudio O am Fyd Rhyfeddol yn ystod yr hanner tymor hwn, sy'n edrych ar ryfeddodau'r byd. Rydym yn ddiolchgar iawn i Meinir Evans am ddod i siarad â'r plant am ei phrofiadau hi o ryfeddodau'r byd wrth deithio'r byd. Ymestynnwyd gorwelion ein plant yn lythrennol!

Cynhaliwyd Diwrnod Cwpan Rygbi'r Byd yn yr ysgol ar drothwy'r trwmament. Daeth y plant i'r ysgol wedi gwisgo'n lliwgar, cafwyd gwersi llythrennedd a rhifedd ar thema Cwpan rygbi'r Byd, a daeth Rhidian, Gwion a Jack (Swyddogion Rygbi Ceredigion) i gynnal gweithdai rygbi o'r Meithrin i Flwyddyn 6. Cafwyd diwrnod i'w gofio!



Llongyfarchiadau mawr i Dion Teilo o flwyddyn 3 sydd wedi bod yn brysur tu hwnt ar gyrsiau golff ledled Prydain yn ddiweddar! Wedi ennill mewn cystadleuaeth yn y Rhondda, enillodd yr anrhydedd i chwarae ar gwrs golff byd enwog St Andrews yn yr Alban! Llwyddodd i ddod yn chweched yn yr adran 7 i 8 oed. Campus iawn! Bu'n llwyddiannus yn y Celtic Manor yng Nghasnewydd, a daeth llwyddiant eto i'w ran wrth ddod yn ail yn yr European Tour Event yn Swydd Amwythig! Mae wedi profi llwyddiant ym mhell ac yn agos, ac mae Dion yn ddiolchgar iawn am gefnogaeth aelodau Clwb Golff Cilgwyn, a'u parodrwyd i'w helpu ar bob achlysur.

Cydymdeimlo

Estynnir cydymdeimlad dwysaf y fro â Mrs Lynne Williams, 4 Rhydlanfair yn ei phrofedigaeth lem ar farwolaeth ei mam yn ddiweddar. Cydymdeimlir â'r teulu oll a ffrindiau.

Pentrebach

Priodas Ruddem

Llongyfarchiadau i Eric a Mair Jones, Pant-teg sydd wedi dathlu Priodas Ruddem ddiwedd y mis. Ymlaen at yr Aur nesaf! Pob dymuniad da i chwi.

Colli Ffrind

Yn ystod y mis daeth newyddion trist iawn i Bentrebach wrth i ni ddeall am farwolaeth Mrs Mary Davies, Awel Teifi. Roedd hi a'i diweddar briod wedi dod atom o Brengwyn ger Llandysul, rhyw ddeunaw mlynedd yn ôl. Chwithdod mawr i ni yn ein cymuned fach glos oedd clywed am farwolaeth Mary a hynny ar ôl iddi treulio prin dair wythnos yn Ysbyty Glangwili. Cofiw'n am ei gwên bob amser, ei charedigrwyd a'i diffuantrwyd.

Bu'r angladd yn breifat a chladdwyd ei gweddillion yn mynwent Capel Pantydefaid, Prengwyn.

Cydymdeimlwn gyda Elaine, Dylan a Luned yn eu galar o golli mam, mam-yng-nghyfraith a mam-gu annwyl iawn.

Clwb Clonc

Hydref 2015

£25 rhif 523 :

Eleri Thomas,
Blaencwmdu, Llanllwni.

£20 rhif 93 :

Lowri Aur Davies,
Hafod Lon, Cwmann,

£15 rhif 90 :

Carwyn Davies,
Caerwenog, Penffordd.

£10 rhif 422 :

Arwel Rees,
Llys-y-Wawr, Llanllwni.

£10 rhif 285 :

Eirios Jones,
Felindre Uchaf, Cwmann.

£10 rhif 428 :

Manon Haf Richards,
Brynhyfryd, Llambled.

£5 rhif 190 :

Aerwen Griffiths,
Pengarn, Llanfair Clydogau.

Swdocw

Sut i chwarae – Rhaid i chi gwblhau'r grid gyda phob colofn, pob rhes a phob boc yn cynnwys y rhifau 1-9

Enw

Cyfeiriad

Cod post

Rhif Ffôn

Atebion i: Tŷ Cerrig, Cwmann, SA48 8ET
Gwobr: Pecyn Nwyddau Clonc
I'r ateb cywir cyntaf allan o'r het.

				5		7	6
				6			2
	1	6					4
			6			9	8
		5	7	2	3		
	6	8		1			
9						4	2
6			3				
7	4		5				

Swdocw Medi:

Llongyfarchiadau i:
Mary Jones, Y Stryd
Fawr, Llanbed ac
i bawb arall am
gystadlu: Delyth
Edwards, Deluan,
Llansawel; Glenys
Davies, Gelli Aur,
Llanybydder; Avril
Williams, Y Fedw,
Cwmann a Bethan
Williams, Neuadd
Fryn, Llanybydder.

4	2	7	1	3	5	6	9	8
9	5	8	6	2	4	7	1	3
1	6	3	7	8	9	2	4	5
7	8	2	4	1	3	5	6	9
3	9	1	5	6	8	4	7	2
5	4	6	9	7	2	8	3	1
2	7	9	3	5	6	1	8	4
8	1	4	2	9	7	3	5	6
6	3	5	8	4	1	9	2	7

Gweithdy Llechi Cymreig, Enwau Tai, Dillad,
Llyfrau, Cds, Dvds, Anrhegion, Oriel a
Gwasanaeth fframio lluniau ayb

Sianti

Uned 2 Monumental Works,

Stryd y Fro, Aberaeron

gyferbyn a Banc y Natwest

01545 571510

www.sianti.org

Gwasanaeth Lamineiddio Dyffryn Aeron

Diogelwch eich gwaith
mewn maint A4 i A1

Prisiau rhesymol i
unigolion, ysgolion a
myfyrwyr

Cysylltwch â Roy Davies
ar 07792 627974.

Ruth Thomas a'i Chwmni Cyfreithwyr

Adeladau'r Llywodraeth,
Heol Pontfaen, Llambed
Ffon: 423300 Ffacs: 423223
mail@ruththomassolicitors.co.uk

yn cynnig pob gwasanaeth
cyfreithiol
Apwyntiadau hwyr neu yn eich
cartref

Ymgynghorwyr Yswiriant Eryl Jones Cyf

Beth am gysylltu â ni am amcan-bris
i'ch holl anghenion yswiriant?

Car, lori, fan,
beic modur



Yswiriant tŷ/
cynnwys

Teithio

Fferm a busnes

Cyfrifoldeb

Anifeiliaid

Polisiau Cystadleuol i bob math o yswiriant,
cyngor a chefnogaeth yn rhad

Swyddfa'r Hen Fanc, 6 Stryd Fawr
Llanbedr Pont Steffan, SA48 7BA
Ffôn: 01570 422401
Ffacs: 01570 422562

Authorised & Regulated by The Financial Conduct Authority

T. Emyr Jones Adeiladwr



Araul, Cwmann

01570 423921

07867 945174

Gorsgoch

Pen-blwydd Arbennig

Pen-blwydd hapus iawn i Mrs Jean Evans, Llwyn y Gôg a fydd yn 80 oed yn ystod y mis. Gobeithio Jean y cewch ddiwrnod wrth eich bodd yng nghanol teulu a ffrindiau lu.

Gymanfa Brynhafod

Unwaith eto eleni, cynhaliwyd Cymanfa Ddiolchgarwch yng Nghapel Brynhafod, Gorsgoch nos Sul 20 Medi. Arweinydd y noson oedd Enfys Hatcher, Carys Evans wrth yr organ a Bois y Rhedyn, Llanddewi Brefi yn gyfrifol am yr adloniant. Diolch i Shan Jones am fod yn llywydd ar y noson a diolch i bawb am gefnogi. Cafwyd noson llawn sbort a chanu.

Agor Neuadd yr Hafod

Braf yw gweld y neuadd wedi ei chwblhau ac yn cael ei defnyddio eto.

Bydd Noson Agoriadol Swyddogol y neuadd ar 23 Hydref. Bydd cyngerdd yn dechrau am 7yh. Croeso cynnes i bawb!

Cwmpsychant

Noson o Tip-it

Croesawir chi yn gynnes iawn i festri Capel y Cwm ar nos Wener, Hydref 9 am 7:30 i noson o Tip-it – noson llawn hwyl a sbri.

Cydymdeimlo

Danfonwn ein cydymdeimlad llwyrat â Huw Davies a'r plant, Llysmeddyg ar golli ei mam a mam-gu sef Mrs Elen Davies o Brengwyn, ac hefyd gyda Janet ac Euros a'r teulu, Llys y Wawr ar golli brawd, brawd-yng-nghyfraith ac ewythr ym mherson Iorwerth James (Flash) o Rhuddlan yn dilyn salwch byr.

Cwrdd Diolchgarwch

Cynhelir Cwrdd Diolchgarwch Capel y Cwm ar nos Iau, Hydref 15 am 7:30 o'r gloch. Disgwylir y Parch Eileen Davies o Lanllwni i bregethu. Croeso cynnes i bawb.

18 oed

Pen-blwydd hapus i Meinir Davies, Caerwenog a fydd yn 18 oed ar ddechrau mis Hydref. Dymuniadau gorau i ti i'r dyfodol.

Cellan

Cwrdd Diolchgarwch

Cynhelir Cwrdd Diolchgarwch Capel-yr-Erw, nos Fawrth 13eg o Hydref am 7 o'r gloch. Gwasanaethir gan Gwyn Elfyn Jones o Bontyberem. Croeso cynnes i bawb.

Llanwnnen

Pen-blwydd Hapus

Llongyfarchiadau i Gwilym Davies, Llys Aeron ar ddathlu ei ben-blwydd yn 80 oed yn ystod mis Medi a phen-blwydd hapus i Mrs Irene Jackson, Plas Llwynygroes a fydd yn 80 oed ar 15 Hydref.

Sefydliad y Merched

Ar 7 Medi aeth yr aelodau ar wibdaith gyda'r hwyr i weld arddangosfa o flancedi, clustogau ac ati gan Jane Beck yn Llwynygroes. Cafwyd hanes y gwahanol fathau o flancedi Cymreig ganddi a chyfeiriodd at eu gwerth. Diolchodd ein Llywydd, Mrs Avril Jones iddi am gyflwyniad diddorol iawn. Yna, aethom ymlaen i westy Tyglyn, Ciliau Aeron a chael croeso cynnes a phryd o fwyd blasus cyn cynnal cyfarfod byr. Diolchodd Mrs Avril Jones i Mrs Mary Davies a Mrs Ceinwen Roach am drefnu noson mor hyfryd. Enillydd cystadleuaeth y mis am fat i'w roi o dan ddiod oedd Mrs Avril Jones.

Hyfforddiant Defnyddio Diffibriliwr

yn Neuadd yr Eglwys, Llanwnnen
Nos Iau, 15 Hydref
am 7.30pm
yn AGORED I BAWB yn y plwyf

Ysgol Llanwnnen

Croeso i ddisgyblion newydd

Croeso mawr i Guto Jenkins sydd wedi cychwyn yn y dosbarth derbyn ers mis Medi. Mae Guto wedi ymgartrefu yn dda i fywyd yr ysgol ac yn mwynhau ei hun yn fawr.

Croeso i staff newydd

Wedi ymddeoliad Mrs Llwyd ar ddiwedd y flwyddyn y llynedd estynnwn groeso i Miss Deloni Davies sydd wedi cychwyn yn y dosbarth derbyn ers mis Medi. Mae'r plant wrth eu bodd yn ei chwmni ac yn mwynhau y gwersi mas draw.

Llwyddiant y sioeau

Bu nifer fawr o ddisgyblion yr ysgol yn brysur dros yr haf yn cystadlu mewn amryw o sioeau gyda gwaith celf ac yn dangos anifeiliaid o bob math. Llongyfarchiadau i bawb fu'n llwyddiannus a braf oedd gweld eich lluniau yn y wasg.

Bore Coffi Macmillan

Ar ddydd Gwener, Medi 25 aeth yr ysgol i gyd am dro i Neuadd yr Eglwys er mwyn cefnogi Bore Coffi Macmillan. Roedd Sali, gynt o'r siop, wedi trefnu'r digwyddiad a braf oedd cael cefnogi. Roedd y neuadd yn orlawn ac roedd y plant wedi mwynhau eu sgwash a'u cacennau.

Pêl Droed 5 bob ochr

Llongyfarchiadau i'r tîm 5 bob ochr sef Steffan Evans, Lilly Smith, Emily Roach, Rhys Williams, Nat Griffiths, Gruff Tomos a Beca Jones ar eu llwyddiant yng

nghystadleuaeth cylch yr Urdd.

Trip i Lanerchaeron

Bu plant dosbarth Mr Ebbsworth, ynghyd â disgyblion o ysgolion Llanwenog a Chwrtnewydd, ar ymweliad addysgiadol â Lanerchaeron yn ddiweddar i ddathlu bywyd ffermio yng nghwmni aelodau Ffermwyr Ifanc Ceredigion. Roedd y trip yn un arbennig lle dysgodd y disgyblion llawer am amaethyddiaeth a chynnyrch y fferm.

Campau'r Ddraig

Mae sesiynau Campau'r Ddraig ar gyfer y disgyblion wedi ail gychwyn ar nos Fercher. Rydyn ni fel ysgol yn ddiolchgar iawn i Mr Rob Jones, rhiant yn yr ysgol, am gynorthwyo i hyfforddi'r disgyblion yn y gwahanol chwaraeon. Diolch yn fawr Rob.

Dyddiadau i'r dyddiadur

Helfa drysor ceir – Nos Wener, 2 Hydref. 5.00yh o'r Ysgol.

Cwrdd Diolchgarwch – Prynhawn dydd Mercher, 21 Hydref. Neuadd y Pentref. 2.00yp

Cyngerdd Nadolig a Marchnad Mentergarwch Nadolig – 2 Rhagfyr. Eglwys Llanwnnen. 6.30yh

Cydymdeimlo

Danfonwn ein cydymdeimlad llwyrat a dwysaf at Elaine, Dylan a Luned, Pen y Nant yn dilyn eu profedigaeth lem o golli mam, mam-yng-nghyfraith a mam-gu annwyl ym mherson Mrs Mary Davies, Awel Teifi, Pentrebach. Rydym oll yn meddwl amdanoch yn eich profedigaeth.

80 oed

Pen-blwydd hapus i Gwilym Davies, Llys Aeron a ddathlodd ei ben-blwydd yn 80 oed ganol mis Medi. Gobeithio i chwi fwynhau'r diwrnod.

Swydd Newydd

Pob lwc i Catrin Davies, 3 Bro Grannell yn dy swydd newydd mewn ysbyty yng Nghaerdydd.

18 oed

Llongyfarchiadau i Daniel Davies, 3 Bro Grannell ar ddathlu ei ben-blwydd yn 18 oed yn ddiweddar.

Cwrdd Diolchgarwch

Cynhelir Cwrdd Diolchgarwch Eglwys Llanwnnen, prynhawn Sul, Hydref 11 am 5.30 o'r gloch. Y pregethwr gwadd fydd y Parchedig Dafydd Aeron. Croeso cynnes i bawb.

Os hoffech gynorthwyo'r gwirfoddolwyr gyda'r gwaith o gynhyrchu'r papur hwn, croeso i chi gysylltu ag un o'r bwrdd busnes.

Llanybydder

Eglwys San Pedr, Llanybydder

Cynhaliwyd Gwasanaeth y Gair ar Ddydd Sul 20 Medi a'r thema'n cwmpasu Grym Ein Geiriau.

Erioed mewn hanes, nid yw geiriau wedi bod mor hawdd a chyflym i'w trosglwyddo dan law'r we, ffôn symudol, tecstio, e-bost, facebook, trydar, blogiau, youtube yn ogystal â'r radio, teledu neu gyfrwng argraffu. Gwneir defnydd da o'r uchod ond hefyd defnydd drwg. Holl bwysig, felly, yw ein bod yn defnyddio ein geiriau mewn dull positif.

Yn y Beibl dysgwn yr egwyddor o hau a medi. Yn y llyfr Genesis 8:22 dywed, "Tra pery'r ddaear, Ni pheidia pryd hau a medi, oerni a gwres, haf a gaeaf, dydd a nos".

Gallwn ddeall yn hawdd sut y mae'r ffermwr yn hau had ac yn disgwyl am y cynhaeaf. Ni allwn weld agwedd unigolyn, ei fyfyrddodau a'i eiriau ond y maent hefyd yn hadau'n y byd anweledig (ysbrydol) ac yn cynhyrchu cynhaeaf yn dibynnu ar yr hyn sydd wedi ei hau. Os bydd person yn parhau i hau geiriau, agwedd a hel meddyliau negyddol bydd yn debygol o fedi canlyniadau negyddol yn ei fywyd. Ar y llaw arall, os bydd yn hau geiriau, agwedd a myfyrdodau positif, bydd yn sicr o weld canlyniadau ffafriol.

Pa eiriau sy'n bositif?

Bod yn ddiolchgar a dweud Diolch – diolch am fwyd a dillad, to dros ein pennau, dŵr glan a llawer mwy. Yn Salm 100 Adnod 4 dywed, "Dewch i mewn i'w byrth â diolch ac i'w gynteddau â mawl. Diolchwch Iddo bendithiwch Ei enw".

Helpu, annog a chalonogi eraill a'u gwerthfawrogi – ac i ddweud hynny!

Dweud y gwir bob amser.

Siarad Gair Duw sydd â'r grym i'n helpu ymhob sefyllfa bywyd, e.e. pan yn teimlo'n isel, Salm 23 "Yr Arglwydd yw Fy Mugail, Ni bydd eisiau arnaf, Gwna i mi orwedd mewn porfeydd breision, a thywys fi gerllaw dyfroedd tawel, ac y mae Ef yn fy adfywio...."

Peidio â siarad o gwbl ar adegau ond i fod yn dawel ac i wrando ar eraill.

Hefyd, yn ystod y gwasanaeth gwrandawyd ar hanes yr Iesu'n cerdded ar y môr adeg y storm a'i ddisgybl Pedr yn cerdded ato o'r cwch. Pan oedd yn dal ei lygaid ar yr Iesu nid oedd yn suddo. Pan fyddwn ni, ymysg problemau bywyd yn dal ein golwg ar yr Iesu, ni fyddwn yn suddo chwaith. Gwrandawyd ar y gân boblogaidd, byd-eang yn y siart Gristnogol ar hyn o bryd sef Oceans - Where Feet may Fail gan Hillsong Awstralia, a oedd yn sôn am hyn.

Diolch i Avril Jones, Heather

Jones a Val Wood am ymwneud â'r darlenniadau'n ystod y gwasanaeth.

Cofiw'n mewn gweddi am bawb o fewn yr Eglwys sy'n teimlo'n anhwylyd ar hyn o bryd neu sydd yn yr ysbyty. Dymuniadau gorau i Mrs Rachel Thomas (Hafod gynt) sydd wedi treulio cyfnod yn Ysbyty Bronglais ac Ysbyty Tregaron. Y mae ar hyn o bryd yng Nghartref Allt-y-Mynydd, Llanybydder. Estynnir dymuniadau gorau i holl drigolion Cartref Preswyl Allt-y-Mynydd.

Priodas Hapus!

Priodas Hapus i Leighton Rees a Kimberley Davies, Heol-y-Gaer, Llanybydder a briododd ar 19 Medi yn Eglwys Llanllwni.

Diolch

Dymuna Hannilia Court, Ceincoed Hill ddiolch i'w pherthnasau, ffrindiau a chymdogion am y llu o gardiau, blodau, anrhegion a galwadau ffôn yn dilyn llawdriniaeth yn Ysbyty Tywysog Philip, Llanelli yn ddiweddar. Diolch yn fawr iawn.

Pwyllgor Pentref Llanybydder

Cynhelir Cyfarfod Blynnyddol y pwyllgor yn y Clwb Rygbi nos Lun, Hydref 5 am 7.00 o'r gloch. Croeso cynnes i aelodau hen a newydd.

Parti Calan Gaeaf

Bydd Parti Calan Gaeaf ar nos Wener, 30 Hydref yng Ngwesty'r Llew Du, Llanybydder am 6.30y.h. Bydd cŵn poeth i'r plant a digon o gemau, cystadlaethau a raffl. Pwnc y gystadleuaeth y flwyddyn yma yw 'Collage Calan Gaeaf', gydag anrheg i'r enillwyr.

Noson Tân Gwylt

Ar Dachwedd 5 byddwn yn cynnal ein noson Tân Gwylt yng nghae tu ôl i'r Llew Du yn Llanybydder rhwng 6.30 a 6.45. Digon o fwyta ac yfed, cawl, cŵn poeth a choffi.

Nodyn – byddwn yn ddiolchgar i NEB i ddod â tân gwylt eich hunain oherwydd materion iechyd a diogelwch. Hefyd, cofiwch cadw eich anifeiliaid i fewn!

Parti Nadolig

Bydd hwn yn digwydd eleni ar Ragfyr 19 yng Ngwesty'r Llew Du. Bydd gwybodaeth i ddilyn yn nes i'r dyddiad.

18 oed

Dymuniadau gorau i Elin Evans, Maesgwyn a fydd yn dathlu ei phen-blwydd yn 18 oed yn ystod mis Hydref. Cyfarchion i ti oddi wrth y teulu i gyd.

Mudiad Chwiorydd Bedyddwyr Cymru

Teithiodd chwiorydd o bob cwr o Gymru - a rhai dynion hefyd - i

gapel Aberduar ddydd Mercher 16 Medi i Gyfarfodydd Blynnyddol Mudiad Chwiorydd Undeb Bedyddwyr Cymru. I ddechrau oedfa'r prynhawn hyfryd oedd cael galwad i addoli gan blant Ysgol Llanybydder a gweddi agoriadol gan y Llywydd, Enid Edwards, Ynysir. Cymerwyd at y rhannau arweiniol gan Margaret Wilson, Brynhafod a Jenny Thomas, Bethel. Yna estynnwyd croeso cynnes i bawb ar ran Eglwys cyrch Gogledd Teifi gan Janet Evans, Noddfa. Cyfeiriodd at farwolaeth Nesta Harries, Bethel a fu'n Llywydd y Mudiad yn y flwyddyn 2002 a diolchodd i Dduw amdani ac am ei gwasanaeth amhrisiadwy ar hyd ei bywyd i enwad y Bedyddwyr. Yn dilyn, cyflwynwyd adroddiadau gan swyddogion y Mudiad a chynrychiolaeth o Gartref Glyn Nest cyn mynd ymlaen i ddyrchafu'r Llywydd newydd sef ein Gweinidog, y Parchedig Jill Tomos. Bu'n arwyddo Beibl arbennig y Llywyddion a throsglwyddwyd Tlws Nanette iddi gan Enid Edwards. Roedd yr Urdd Weddi yng ngofal Eleri Lloyd Jones, Penueil Bangor. Cyflwynwyd yr Is-Lywydd, Cath Williams, Llansanan a derbyniwyd cyfarchion gan Lywydd y Senana, Blodwen Ockwell, Aberhonddu a'r Parchedig Ieuan Elfryn Jones, Caergybi, Llywydd yr Undeb.

Cyflwynwyd anerchiad diddorol ac amserol gan y Parchedig Jill Tomos yn seiliedig ar hanes Dorcas ar y thema 'Rhannu ffydd drwy Gyfeillgarwch a Gwasanaeth' gyda neges bwysig i bawb ohonom fel Cristnogion.

Cyflwynwyd basgedaid hardd o flodau i'r Llywydd newydd ar ran y cylch gan Hannilia Court, Aberduar. Cyhoeddwyd yr emynau gan Ogwen Evans, Aberduar, Brenda Jones, Seion a Beryl Williams, Bethel. Gwasanaethwyd wrth yr organ gan Delyth Morgans Phillips, Noddfa a thraddodwyd y fendith a'r gras bwyd gan y Parchedig Judith Morris, Aberystwyth.

Bu pawb wedyn yn cyfranogi o'r pryd bwyd ardderchog a baratowyd gan Gegin Pantygwin a braf oedd cael cyfle i hel atgofion.

Llywyddwyd oedfa'r hwyr gan y Parchedig Jill Tomos a chymerwyd at y rhannau arweiniol gan Llinos Jones, Noddfa a Mair Jones, Brynhafod. Cyhoeddwyd yr emynau gan Anne Milcoy, Aberduar, Eiddwen Hatcher, Brynhafod a June Williams, Caersalem. Roedd y cyflwyniad gan Chwiorydd y Cylch a'r Gymanfa ar lafar ac ar gân yn ddilyniant effeithiol o anerchiad y Parchedig Jill Tomos yn gynharach yn y dydd. Bu Margaret Davies a Margaret Walters yn sôn am y Dosbarth Gwau yn y Tabernacl Caerfyrddin sydd yn creu blancedi



Hannilia yn cyflwyno basgedaid o flodau i'r Parchedig Jill Tomos.

i'r rhai llai ffodus, a Rosemary Morgan gyda chymorth Janet Evans, Noddfa yn rhoi hanes y Te Sbesial yn ardal Llandeilo i'r rhai oedd yn byw wrth eu hunain, a hynny ar ffurf ymgom mewn ffordd hwyliog llawn hiwmor. Yna cafwyd manylion Banc Bwyd Llambled sy'n cynorthwyo teuluoedd mewn argyfwng gan Delyth Morgans Phillips, Myfanwy Bryce ac Anne Davies o Noddfa. Hefyd fel rhan o'r cyflwyniad mwynhad mawr oedd gwrandao ar ddatganiadau swynol Lowri Elen, Noddfa (unawd), Enfys a Gwawr Hatcher, Brynhafod (deuawd) a pharti canu Mamau Ysgol Sul Noddfa a Chwiorydd Ifanc cylch Llambled, ynghyd ag adroddiad graenus Elliwi Dafydd, Bethel a darlenniad deallus Lowri Gregson a Hedydd Wilson, Aberduar. Roedd y cyfan yn dangos sut y gall bawb ohonom wneud ein rhan mewn gweithred syml i gynorthwyo ein cyd-ddyn.

Talodd yr Is-Lywydd deyrnged i'r Parchedig Jill Tomos am ei chyfraniad gwerthfawr, i eglwys i'r cylch am y croeso a'r lluniaeth ac i bawb a gymerodd ran yn ystod y dydd am eu gwaith canmoladwy. Soniodd pa mor ffodus yw'r cylch o gael Chwiorydd Ifanc dawnus sy'n barod i roi o'u gwasanaeth. Rhiannon Lewis oedd yn gwasanaethu wrth yr organ a thraddodwyd y fendith gan y Parchedig Mary Davies, Llandeilo.

Bu'n ddiwrnod bendithiol a phleserus ac aeth pawb o Aberduar gan deimlo mai da oedd cael bod yno.

**Sefydliad
Prydeinig y Galon
yn cynnal**

Noson Bingo
yng Nghlwb Rygbi Llanybydder
Nos Fawrth,
27 Hydref 2015
Croeso cynnes i bawb

Colofn y C.Ff.I.



Mis Medi yw dechreuad blwyddyn a chalendr y mudiad ac felly mae'r clybiau wedi ail-ddechrau ar nos Lun a digwyddiadau'r sir yn y dyddiaduron yn barod. Mae'r aelodau wedi dechrau ar y cystadlu yn Swydd Amwythig ac mae'r hyfforddiant a phwyllgorau cyntaf wedi eu cynnal.

Mae'n bleser gan CFFI Ceredigion gyhoeddi mai Catrin Reynolds yw Trefnydd newydd y Sir. Merch o Saron, Llandysul yw Catrin a bu'n brif ferch Ysgol Gyfun Dyffryn Teifi. Mae'n gyn-aelod o Glwb Ffermwyr Ifanc Troed-yr-aur ac mae wrth ei bodd yn canu mewn amryw o gorau. Mae'n ferch ifanc frwdfrydig a mae'n edrych ymlaen i gymryd at y gwaith.

Mae'r Sir yn gwneud tysteb i Mared am ei gwaith amhrisiadwy a roddodd fel Swyddog Datblygu dros y deng mlynedd a hanner diwethaf. Pe baech yn dymuno cyfrannu tuag at y dysteb danfonwch eich cyfraniad i Anne yn y Swyddfa erbyn 21 Hydref. Bwriedir cyflwyno'r dysteb i Mared nos Iau 29 Hydref yn Eisteddfod y Sir.

Trefnwyd noson o hyfforddi i Swyddogion newydd y clybiau gyda hyfforddiant ar gyfer ysgrifenyddion, cadeiryddion, arweinyddion a thrysoryddion. Darparwyd hyfforddiant ar gyfer Gohebyddion y Wasg hefyd gan Radio Beca a hyfforddiant Diogelu Plant ar gyfer arweinyddion y clybiau. Cynhaliwyd Pwyllgor Blynnyddol y Sir yn Neuadd yr Hafod, Gorsgoch ar 23 Medi.

Llongyfarchiadau i'r aelodau fu'n cynrychioli Ceredigion a Chymru ar lefel Cenedlaethol ar benwythnos Sgiliau Fferm (Diwrnod Maes) FfCFFIC 5-6 Medi: Stocmon Hŷn – Dion Davies, Pontsian; Stocmon Iau – Manon Turner, Llangeitho; Ffensio Hŷn – Gareth a Dilwyn Harries, Llanddeiniol a Richard Downes, Llangeitho. Da iawn chi!

Ar benwythnos y 19eg o Fedi, cynhaliwyd digwyddiad Dathliad Ffermio a Bywyd Cefn Gwlad gan Glybiau Ffermwyr Ifanc Ceredigion ar stâd Ymddiriedolaeth Genedlaethol Llanerchaeron. Ar ddydd Gwener 28 Medi, mynychodd dros 170 o blant ysgolion cylchoedd Tregaron a Llanbedr Pont Steffan y digwyddiad a oedd wedi ei deilwra yn arbennig ar eu cyfer. Yn ystod y diwrnod, cynhaliwyd sesiynau niferus yn addysgu'r plant am gynnyrch a bywyd cefn gwlad. O drinio oen i ail-gylchu, o dyfu cynydau i ddiogelwch fferm, roedd y pynciau a drafodwyd yn eang, ac yn angenrheidiol. Roedd cyfle i'r plant i flasau, aroglu ac i gyffwrdd wrth ddysgu, a hyn i gyd yn digwydd ar dir ffermdy lleol – lleoliad oedd bendant yn gosod awyrgylch addas iawn i'r diwrnod.

Ar ddydd Sadwrn 19 Medi, agorwyd y digwyddiad i'r cyhoedd a chamodd dros fil o bobl drwy gatiâu Llanerchaeron. Dyma godiad sylweddol yn y niferoedd a fynychodd yr achlysur yn 2012, sydd yn adrodd nid yn unig poblogrwydd y math yma o ddigwyddiad yn y gymuned, ond yr angen sydd am ddiwrnod addysgiadol amaethyddol sydd yn addas i'r teulu i gyd. Yn ogystal â'r digwyddiadau uchod, cafwyd stondinau gan yr NFU, FUW, Coleg Ceredigion a Hyfforddiant Ceredigion, yn ogystal â nifer fawr o fusnesau lleol. Roedd hefyd ffair grefftâu a bwyd ar gael, ac yn ffodus, bu'r haul yn gwenu arnynt a'u cynnyrch drwy gydol y dydd. Roedd amryw o weithgareddau ac arddangosfeydd i fwrw golwg arnynt, megis treialon cŵn defaid, arddangosfa goginio a chyfle i'r plant i beintio eu wynebâu a chymryd llun yn ein fframyn!


Braf oedd gweld cymaint o gefnogaeth gan y cyhoedd, wynebâu newydd a chyfarwydd. Aelodau gwirfoddol o glybiau sir fu'n tywys, arwain sesiynau a stiwardio yn y meysydd parcio drwy gydol y penwythnos, ac felly mae ein diolch fel arfer, yn ddiffuant iddynt.

Clwb 200: AWST - 1af: Emyr Davies, Aberdaudwr. 2il: Marc a Wendy Jenkins, Ysubor Wen. 3ydd: CFFI Llangwyrfon. MEDI - 1af: R G Evans, 2il: Rhun a Ceris Fychan, Penwern, 3ydd: Heather Price, Esgereinion.

I ddod: 10 Hydref: Diwrnod Maes y Sir, Mart Tregaron. 21 Hydref: Pwyllgorau'r Sir a Hyrwyddo Teithiau Tramor. 29 Hydref: Eisteddfod y Sir, Pafiliwn Ponrhydfendigaid. 31 Hydref: Eisteddfod y Sir, Pafiliwn Ponrhydfendigaid.

Silian

Sioe swclod Ceredigion



Nos Wener 18 Medi cynhaliwyd Sioe Swclod Cymdeithas Merlod Mynydd a Chobiau Cymreig Ceredigion. Cafwyd nifer o geffylau unwaith eto eleni i fferm Penparc, Silian, lle cynhaliwyd y sioe.

Y prif bencampwr oedd Haydn Hydson o Landeilo gyda'r is-bencampwriaeth yn mynd i Richard Morgan o Gwmann.

Gweler y canlyniadau isod: Adran 'A' - teulu Thomas gyda Cefnfedw Tic Tac; Adran 'B' - Vicky Andrew gyda Bronheulog Lady Rowena; Adran 'C' - Ormond Riva gyda Richard Morgan; Adran 'D' - Maesyfelin Tara gyda Haydn Hudson.

Adloniant gan Rhian Dafydd



Cafwyd noson hyfryd yma yn gwylio perfformiad 'Y Llewfan', ym mis Gorffennaf sef cynhyrchiad gwreiddiol gan gwmnïau perfformio Theatr Felinfach yn dathlu gwaith T Llew Jones. Os na gawsoch gyfle i'w weld bydd darnau o'r cynhyrchiad yn cael eu perfformio yng Nghastell Aberteifi yn ystod yr wythnos hanner tymor.

Ail gydiwyd yn y perfformiadau ar benwythnos 11 a 12 Medi gyda phenwythnos o gomedi Cymraeg. Ar y nos Wener cafwyd cwmni Elis James yn cael ei gefnogi gan Steffan Alun. Cafwyd noson arbennig gyda lot o chwerthin. Mae Elis yn un o gomediwyr mwyaf poblogaidd a llwyddiannus Prydain ac er mai Cymraeg yw ei iaith gyntaf, trwy gyfrwng y Saesneg mae Elis wedi bod yn perfformio dros y ddegawd ddiwethaf. Roedd yn awyddus i ddatblygu sioe Gymraeg ac aeth ati i greu taith a fyddai'n rhoi cyfle iddo brofi deunydd o flaen cynulleidfya fyw trwy gyfrwng y Gymraeg. Mi fydd y sioe yn cael ei recordio a'i darlledu maes o law ar S4C.

I barhau gyda'r penwythnos cafwyd Mini Gŵyl yn y Theatr ar y Nos Sadwrn gyda Cardi-Gân, y band ifanc a thalentog Raffdam a thri chomediwr lleol, sef Wyn (Bach) Thomas, Arwel (Cwmcoedog) Davies a Hywel (Gas) Lloyd. Noson arall i'w chofio a chychwyn efallai ar 'GleeClub' newydd yn y gorllewin!

Ar nos Iau, 17 Medi cynhaliwyd cyngerdd a dathliad o ganu piano yng nghwmni disgyblion ysgol gerdd Dorothy Wilson ac ar nos Wener, 18 Medi, cynhaliwyd noson egscliwsif i Gyfeillion Theatr Felinfach.

Dyma'r ail yn y gyfres o nosweithiau arbennig i'r Cyfeillion. Noson anffurfiol gyda digon o gyfle i gymdeithasu dros banded neu wydraid o win a danteithion. Cafwyd cwmni 3 person sydd wedi bod yn gysylltiedig â'r theatr dros y blynnyddoedd, sef Anna ap Robert, cyn Swyddog Ieuentid y Theatr, Iestyn Thomas (TyGlyn) a Dafydd Jones, Penlan Gwnnws. Cafwyd hefyd ychydig o adloniant gan Dafydd a chyfle i weld ffilm fer oedd wedi ei pharatoi gan Lia Mair Jones, Swyddog Creadigol a Diwylliant Bro'r Theatr a chriw'r Fforwm Ieuentid i hyrwyddo CIC! Yn ddiweddar ail wampiwyd gwefan y Theatr felly rhoddwyd cyflwyniad byr i'r aelodau ar gynnwys y wefan gan ofyn am unrhyw syniadau newydd a oedd ganddynt hefyd. I gloi'r noson, aethpwyd â hwy i ddangos Y Gwndwn ar ei newydd wedd gan fod y gwaith adnewyddu wedi ei gynnal dros gyfnod yr haf yn defnyddio'r arian a gawsom gan Gronfa'r Loteri Fawr Miliynau'r Bobl ym mis Tachwedd y llynedd.

Ar nos Wener, 25ain o Fedi cafwyd noson hudol o ganu gwerin a harmoni clôs yng nghwmni Linda Griffiths a'u merched, sydd wedi ffurfio grŵp eu hunain o'r enw Sorela. Sioe yr ydym ni wedi ei saernïo yw hon gan wybod am ddoniau'r fam a'r merched a gofyn iddynt gyd berfformio mewn noson egscliwsif yma yn Theatr Felinfach.

LYN JONES

"At eich gwasanaeth"



- Torri porfa - o lawntiau bach i gaeau chwarae
- Symud celfi
- Unrhyw waith o gwmpas y tŷ a'r ardd
- Trwydded i gario gwastraff
- Wedi yswirio'n llawn

01570 481029

Lakefield, Llanybydder, SA40 9RL



Richard Marks

Mae Richard Marks wedi bod yn llwyddiannus iawn dros yr haf wrth iddo ennill dau fedal aur ym mhencampwriaeth meistri Prydain ar y trac a'r cae mewn cystadleuaeth yn stadiwm Alexander yn Birmingham ar y 25ain a'r 26ain o Orffennaf. Roedd yr amodau yn oer ac yn wlyb ar y dydd Sadwrn pan wnaeth redeg y 1500 metr gan ennill y categori dynion 65 mewn 5.07.31. Y diwrnod canlynol fe wnaeth gystadlu yn ffeinal y 5000 metr gan ddod yn fuddugol unwaith eto yn y categori dynion 65 mewn 18.43. O ganlyniad i'r amseroedd hyn, llwyddodd Marks i gael ei rancio fel y dyn cyflymaf dros 65 i redeg y 1500metr, 1 milltir a'r 5000metr. Bu hefyd yn cystadlu yng nghystadleuaeth olaf cynghrair meistri Cymru a gynhaliwyd yn Aberhonddu ar y 19eg o Awst gan ddod yn bencampwr y dynion 65 unwaith eto yn y 3000 metr mewn 10.51. Mae llwyddiannau Marks wedi bod yn amlwg ers y blynyddoedd cynnar pan lwyddodd i redeg marathon yn 1982 mewn amser anhygoel o 2 awr 40 munud, ac mae'n dal i serennu hyd heddiw! Llongyfarchiadau Richard.



Great North Run

Ar ddydd Sul, Medi 13eg roedd tua 57 mil o redwyr yn llenwi strydoedd Newcastle Upon Tyne wrth gymryd rhan mewn hanner marathon poblogaidd y Great North Run. Ymysg y miloedd roedd aelodau o glwb rhedeg Sarn Helen sef Gethin Jones a Sian Roberts-Jones a oedd wedi penderfynu rhedeg er mwyn codi arian i elusen Motor Neurone er cof am eu wncwl Raymond Roberts a llwyddwyd i godi dros £1000. Yn ôl Siân: "Roedd penwythnos y Great North Run yn benwythnos i'w gofio yn llawn emosiwn a chyffro - gyda'r awyrgylch anhygoel. Roedd hi'n ddringfa raddol am y rhan fwyaf o'r cwrs hyd nes i ni gyrraedd y filltir olaf i'r llinell derfyn a oedd yn teimlo'n ddi-ddiwedd!" Llwyddodd Gethin i orffen mewn amser o 1 awr 31 munud a hynny heb unrhyw ymarfer o gwbl! Gorffennodd Siân yn ei amser cyflymaf o 1 awr 40 munud a 5 eiliad. Hoffai'r ddau ddiolch o galon i bawb am bob cefnogaeth a'r rhoddion hael.



Ironman

Yn gynnar ar fore'r 13eg o Fedi roedd dros 2000 o gystadleuwyr wrthi'n ymgasglu ar draeth Dinbych-y-Pysgod i ddechrau ar ran gyntaf her Ironman a Gareth Payne, Sarn Helen yn eu canol! Gyda rhyw 10,000 o wylwyr yn cefnogi'r cystadleuwyr roedd y naws yn wefreiddiol. Wrth i'r corn ganu, dyma'r cystadleuwyr yn cychwyn ar ran gyntaf yr her sef nofio 2.4 milltir. Ar ôl cwblhau'r cam cyntaf yn y môr, rhedodd y cystadleuwyr ar hyd y rhodfa cyn cyrraedd y maes trawsnewid er mwyn cychwyn ar y cam nesaf, sef y ras feicio 112 milltir o amgylch cefn gwlad arfordirol Sir Benfro.

Ar derfyn y ras feicio roedd yn amser cychwyn ar farathon 26.2 milltir, sef pedwar lap rhwng Dinbych a phentref New Hedges. Dangosodd Gareth ei gryfder yn glir wrth iddo gwblhau y ras nofio mewn 1 awr 11 munud a 26 eiliad, y beicio mewn 5 awr 55 munud 51 eiliad a'r rhedeg



mewn 3 awr 38 munud 58 eiliad, sy'n rhoi cyfanswm amser o 11 awr 5 munud a 26 eiliad, yn cynnwys yr amser trawsnewid. Gorffennodd Gareth yn safle 97 allan o 2030 o gystadleuwyr a'r 22ain yn ei grŵp oedran, ac felly heb os mae wedi profi ei hun yn "Ironman". Llongyfarchiadau mawr iddo!

Canlyniadau eraill

Ar benwythnos Gŵyl y Banc ddiwedd mis Awst bu aelodau'r clwb yn brysus mewn nifer o rasus amrywiol. Cynhaliwyd ras flynyddol boblogaidd yng Nghrymych ddydd Sadwrn, Awst 29ain sef Ras Beca sy'n 5 milltir o hyd, ac o ganlyniad i law trwm mis Awst roedd y corsydd yn wlypach na'r arfer a'r mwd hyd at eu pengliniau! Llwyddodd y clwb i ennill gwobr am y tîm cyflymaf i orffen y ras a hynny am y 13eg gwaith yn hanes y ras. Roedd y tîm yn cynnwys y 4 rhedwr cyntaf sef Dylan Lewis a orffennodd yn 4ydd mewn 37.23, Glyn Price (41.38), Sion Price (41.50) a Calvin Williams (45.42). Cafwyd llwyddiant yng nghategoriâu y dynion hefyd wrth i Tony Hall ennill y dynion 60 mewn 48.46 gyda Calvin Williams yn ennill y dynion 50 a Glyn Price yn ennill y dynion 40. Wythnos yn unig ar ôl i Nigel Davies gwblhau ei ras 100 milltir, fe redodd Ras Beca mewn 48.27, ac fe orffennodd Dee Jolly, sy'n gyn enillydd o'r ras hon, yn agos iawn tu ôl ei thad yng nghyfraith mewn 48.50 ac yn 3ydd ferch. Ar y dydd Sul, fe wnaeth David Thomas redeg hanner marathon Pont Hafren am yr eildro ynghanol 2800 o redwyr eraill a chafodd amser arbennig o 1.30.30. Hefyd ar y dydd Sul aeth 4 aelod o'r clwb i redeg ras boblogaidd arall sef 10k San Clêr sy'n cael ei chynnal gan glwb Trots. Roedd yr amodau yn ffafriol iawn a chafwyd dros 100 o redwyr yn croesi'r llinell derfyn a llwyddodd Siân Roberts-Jones ennill ras y merched mewn 45.07, a hynny 3 munud a hanner yn gyflymach na'i amser gorau ar y cwrs. Roedd Glyn Price yn rhedeg dau ddiwrnod yn olynol a chafodd ras arbennig sy'n brawf o'i gryfder wrth iddo orffen yn 2il dynion 40 mewn 38.20 tra bod ei frawd Huw Price hefyd wedi rhedeg ras dda gan orffen yn 4ydd dynion 40 mewn 44.07. Llwyddodd Richard Marks barhau a'i lwyddiant wrth iddo ennill categori y dynion 60 mewn amser arbennig o 40.05. Ar fore heulog a ffres, y pumed o Fedi, fe wnaeth Dawn Kenwright gymryd rhan mewn ras 16 milltir y Roman Run a oedd yn dechrau yn Aberhonddu a gorffen yn Merthyr Tudful. Roedd Dawn yn chwilio am ras heriol fel rhan o'i pharatoadau ar gyfer Marathon Eryri ym mis Hydref ac ni chafodd ei siomi yn y ras hon wrth iddi roi perfformiad arbennig gan orffen yn 4ydd merch mewn 2 awr 20 munud 12 eiliad. Y diwrnod canlynol, tra bod nifer ohonom yn mwynhau barbeciw blynyddol y clwb yng nghae pentref Cwmann, teithiodd dau aelod o'r clwb i Gaerdydd i redeg ras 10k gan brofi llwyddiannau personol. Gorffennodd George Eadon mewn 41.29, 12 eiliad yn gynt na'i amser gorau, gyda Caryl Wyn Davies hefyd yn llwyddo i gael ei amser gorau mewn 43.44. Yn agosach at adre, aeth 5 aelod o'r clwb i 10k Castell Newydd Emlyn a oedd yn gwrw troellog a sawl dringfa serth yn wynebu'r rhedwyr, ond nid oedd hyn yn peri unrhyw broblem i'n aelod diweddaraf Sion Price wrth iddo roi perfformiad anhygoel gan orffen yn 3ydd mewn amser arbennig o 38.20, gyda Simon Hall yn gorffen yn 4ydd mewn 41.45, Tony Hall yn ennill categori y dynion 60 mewn 46.11, Huw Price yn ennill categori y dynion 50 mewn 49.00 a'r ffyddlon Allan Watts yn gorffen mewn 2 awr 8 munud. Dydd Sul, Medi 13eg ynghanol 1400 o redwyr ym mhrydferthwch Llyn Efyrrwy yn rhedeg hanner marathon o amgylch y llyn oedd Tim Jones a Nigel Davies. Cafodd y ddau ras arbennig gyda Tim yn gorffen mewn 1.22.05 a Nigel yn tynnu 5 munud oddi ar ei amser gorau gan orffen mewn amser anhygoel o 1.26.27. Tra bod nifer o aelodau'r clwb yn taclo'r tarmac, gwelir eraill yn herio'r mynyddoedd wrth i Dylan Lewis, Daniel Hooper a Calvin Williams gymryd rhan mewn ras mynydd Llyn y fan fach, sef ras 5.5 milltir. Roedd hi'n ras agos tu hwnt ar gyfer y safle cyntaf wrth i'r enillydd orffen mewn 43.32 a Dylan Lewis yn gorffen yn 4ydd mewn 44.02. Llwyddodd Daniel Hooper ennill categori y dynion 40 mewn 46.50 gyda Calvin Williams yn 4ydd yn categori y dynion 50 mewn 56.40.

Adran y Plant

Ras Beca, Awst 29ain – Gwen Thomas oedd unig cynrychiolydd Sarn Helen yn y ras i rai o dan 14 oed ac fe wnaeth yn arbennig o dda er bod un o'i esgidiau rhedeg dal ynghanol y mwd wrth iddi ei golli yn hanner cyntaf y ras! Yn y ras i'r rhai dan 11 oed, Rhys Williams Sarn Helen enillodd gyda Jamie Jones a Sean Wood hefyd yn cael ras dda gan orffen yn gryf. Gwelwyd darpar aelodau brwdfrydig y clwb yn cystadlu yn y ras i rai dan 8 oed sef Nia Williams, chwaer Rhys a Jac Rees a oedd yn wen o glust i glust wrth orffen.

Diolch

Hoffai Ieuenctid y clwb ddiolch o galon i Caryl Wyn Davies sydd yn gorffen fel un o'u hyfforddwyr ar ôl blynyddoedd o wasanaeth a dymuniadau gorau iddi ar ei swydd newydd yn Aberystwyth.



Mwy na brocer yswiriant.
Mwy na yswiriant fferm.



Gweithio'n lleol? Byw'n lleol?
Yswirio'n lleol.

Gwasanaethau Yswiriant FUW
21 Stryd Fawr, Llanbed
Ceredigion, SA48 7BG

Swyddfa: 01570 422556
Carys Davies: 07890 883346
Gwion James: 07980 608337

www.fuwinsurance.co.uk

Mae Gwasanaethau Yswiriant FUW Cyf yn cael ei awdurdodi a'i reoli gan y
"Financial Conduct Authority". Rhif Cofrestru 615251.



**CELF CEGIN A 'STAFELL
WELY, ATELOGION CEGIN
WEDI EU FFITIO,
TEILS WAL A LLAWR**

**DOLGADER,
SGWAR Y FARCHNAD,
LLANYBYDDER
01570 480257**

COMPASS OFFICE SUPPLIES

Am eich holl
ddeunydd swyddfa



Uned 12 Stâd Ddiwydiannol
Llanbed, Heol Tregaron,
Llanbed.

☎ 01570 422955
☎ 01570 422232

Oh My Cod

Siop Pysgod a Sglodion

**19 Stryd Fawr,
Llanbed**

**Oriau Agor:
Llun - Sadwrn 12 - 9
Sul - ar gau**

CANOLFAN ADDURNO

AA

A

Dewis arbenig o bapur, paent ac
offer i wneud addurno yn bleser.

Llyfrau Patrwm, Offer llaw a
phwerus, Polion a thraciau llenni,
gwasanaeth torri allwedd i a
pheiriannau cymysgu paent
Dulux a Leyland.

Arbenigedd ar garreg eich drws.
3 Stryd y Bont
Llanbedr Pont Steffan
01570 423156

Ysgol Bro Pedr

**Ysgol
Bro Pedr**
A fo ben bid bont

Campws Iau

Pob hwyl i'r disgyblion sydd
wedi symud i flwyddyn 7 a
chroeso i'r disgyblion newydd
sydd wedi cychwyn yn y Meithrin
ac mewn dosbarthiadau eraill ar
draws yr ysgol.

Cydymdeimlwn yn ddwys â Mr
Eryl Jones a'r teulu sydd wedi
colli ei dad yn ddiweddar, â Miss
Kelly Charlton a'r teulu sydd
wedi colli mam-yng-nghyfraith,
ac â Mrs Donna Davies a'r
teulu sydd wedi colli tad-yng-
nghyfraith. Rydym yn meddwl
amdanoch.

Cipiodd nifer o ddisgyblion
wobrau yn Sioe ac Eisteddfod
Llanbed yn ystod gwyliau'r haf;
llongyfarchiadau mawr iddynt i
gyd a diolch i'r staff a fu wrthi'n
eu harwain. Cipiodd yr ysgol
y gwpan am yr ysgol uchaf ei
marciau am waith Celf yn yr
Eisteddfod am y bymthegfed
mlynedd yn olynol ynghyd â £50,
a chafodd Ifan Meredith y darian
am yr unigolyn â'r marciau uchaf
yn yr adran Gelf. Da iawn bawb.
Daeth parti unsain yr ysgol yn ail;
diolch o galon i Lowri Jones am
hyfforddi ac arwain ac i Rhiannon
am gyfeilio.

Llongyfarchiadau i Miss
Natalie a Gethin ar enedigaeth
mab bychan sef Noah Jac, brawd
bach i Joey Elis a chroeso i Miss
Rhian Davies sydd gyda ni tra
bydd Miss Natalie ar gyfnod
mamolaeth.

Daeth Karen o'r Frigad Dân i
siarad â disgyblion blynyddoedd
2 a 5 am ddiogelwch tân a
diolch iddi am ei chyflwyniadau
diddorol ac am sbarduno'r
disgyblion.

Bu rhai o ddisgyblion 6
Grannelll a'u hathro Mr Eryl
Jones yn siarad am T Llew Jones
ar raglen Heno yn ddiweddar.
Mae plant Cyfnod Allweddol 2 yn
dilyn y thema Arwyr y tymor hwn
ac yn edrych yn benodol ar waith
a hanes yr awdur enwog.

Mae disgyblion blwyddyn 5
yn derbyn sesiynau am y Beibl
gan ganolbwyntio ar yr Hen
Destament. Cyflwynir y sesiynau
gan wirfoddolwyr o'r Bible
Explorers. Diolch iddynt am
roi o'u hamser i ddod atom yn
rheolaidd.

Bu disgyblion blwyddyn 5
hefyd ar daith i Llannerchaeron i ddathlu bywyd y fferm a gweithgareddau amaethyddol a drefnwyd gan
Fudiad y Ffermwyr Ifanc. Cafwyd cyfle i weld a thrin offer yn ogystal â blasu rhai bwydydd a diodydd, ac
aeth pawb adref â bag yn llawn nwyddau. Diolch i'r staff fu'n gofalu amdanynt ar y daith.

Bu PC Alun yn gwneud cyflwyniadau diddorol yn nosbarthiadau'r Cyfnod Sylfaen gan sôn am bobl sy'n
ein helpu a thrafod gwaith yr heddlu. Diolch iddo am roi o'i amser ac edrychwn ymlaen i'w groesawu yn
ôl at ddisgyblion yr Adran Iau.

Fel rhan o'r thema y tymor yma aeth disgyblion blynyddoedd 1 a 2 ar daith i'r Amgueddfa Wlân a'r
Amgueddfa Deganau a chael amser wrth eu bodd. Cafwyd cyfle i weld sut oedd y peiriannau yn gweithio
wrth wneud blancedi trwchus. Yn yr amgueddfa deganau bu'r disgyblion yn defnyddio llechi a sialc yn yr
hen ysgol yno. Diwrnod buddiol iawn a diolch i Mrs Young am drefnu ac i'r staff am eu gofal. Byddwn
fel ysgol yn casglu bocsys yn llawn nwyddau i'w trosglwyddo i blant y trydydd byd cyn hanner tymor a
gwerthfawrogn eich cefnogaeth fel rhieni a ffrindiau.



Buddugwyr cystadlaethau Sioe ac Eisteddfod Llanbed o Ysgol Bro Pedr.



Cipiodd Parti Unsain Ysgol Bro Pedr yr ail wobwr yn Eisteddfod Llanbed
dan arweinyddiaeth Lowri Jones.



Disgyblion blwyddyn 6 Ysgol Bro Pedr a'u hathro Mr Michael Lloyd
Davies yn cyflwyno siec o £325 i apêl elusennol Nepal. Yn derbyn y siec
mae Iestyn Richards-Rees o Langyndeyrn a oedd yn ymgeisio i fod y Cymro
ieuengaf i ddringo Everest pan darodd y daeargryn yn ystod Mis Ebrill.

Llanfair Clydogau

Atgyfodiad Sioe Llanfair

Pan siaradwyd am ail sefydlu Sioe Llanfair, mae'n sicr bod rhai yn meddwl a oedd hyn yn ddoeth i'w wneud. Dai Jones, Llanfair Fach, roddodd y syniad o flaen pwyllgor y pentref a thrwy ei frwdfrydedd cytunodd y gweddill i fynd ymlaen â'r fenter. Ar ôl llawer o drin a thrafod, penderfynwyd ar gynnwys y cystadlaethau i'r rhaglen a dewis a chysylltu â beirniaid. Dros fisoedd y gwanwyn ac mewn i'r haf aeth yr holl waith ymlaen gyda phawb yn gobeithio fod pobl ardal Llanfair a Chellan yn mynd i gefnogi y fenter. Cynhaliwyd y Sioe ddiwethaf yn 1936. Tipyn o sialens wir!

Dyma ni, ar ôl yr holl waith, fe ddaeth diwrnod Sioe, dydd Llun, Awst 31, Gŵyl y Banc. Wel, ni welwyd sgwâr Llanfair mor fisi ers tro, gyda phawb yn cyrraedd yn gynnwys gydag eitemau cystadlu o luniau i gacennau, crefftau, blodau a llysiau, bwtanod a gwaith coed, a phleser oedd gweld yr holl waith oedd y plant wedi cystadlu ynddynt. Roedd gweld popeth wedi'i drefnu yn y neuadd a'r marcî tu allan yn wir wledd i'r llygaid ac yn dasg anodd i'r beirniaid. Diolch iddynt am eu gwaith arbennig yn dewis y goreuon. Llywyddion y dydd oedd Sheila a Jane, Tŷ Capel gynt a phleser oedd cael y ddwy yn ôl yn eu hen gynefin. Diolchwyd iddynt trwy roi llun o'r pentref yn dangos y Capel a'i hen gartref. Diolch i aelodau'r pwyllgor, o dan arweiniad Dai, am eu holl waith a thrwy hynny am Sioe arbennig o lwyddiannus, a'r diolch mwyaf i bobl yr ardal am eu cefnogaeth.

Enillwyr y Dydd: Amaethyddiaeth: Silwair - Dewi Williams, Cellan. Gwair - Dewi Williams. Ysgallen Dalaf - Colin Adams, Brynheulog. Hen Botel - Wendy Davies, Cwmgar. Llysieuyn siâp rhyfedd - John Metcalf, Ty Yfory. Hen feic - Brynmor, Awelon. Bwtan brain - Brynmor, Awelon. Garddwriaeth: Ffa Ffrengig - Claire Fisher, Cae Glas. Bets coch - Elaine Combes, Penlanmedd. Tomato - Anwen Bell, Maesgwyn. Corjet - Helen Jenkins, Clwtypatrwm. Wyau ieir - Sue Blackman, Brynhir. Blodau: Egin rhosyn - Helen Jones, Llwynieir. Tri blodyn - Helen Jones, Llwynieir. Fâs o flodau gardd : Elaine Combes, Penlanmedd. Planhigyn tŷ, mewn blodyn - Catherine Woodward, Glas y Dorlan. Celfyddyd Blodau: Celf flodeuol - Eleanor Morgan. Gwaith Llaw: Het wedi addurno - Paula Barker, Ty Coch. Llysiau wedi Cerffio - Wendy Davies. Dilledyn wedi ailgylchu - Iris Quan, Blaencwm. Addurn ffelt - A W Giddons. Marc llyfr - Caroline Sinclair. Eitem allan o bren - Claire Fisher, Cae Glas. Coginio: Cage bach - Eleri Quan, Sŵn yr

Afon. Roliau bara - Helen Jones, Llwynieir. Spwnj Fictoria - Eleanor Evans, Nantymedd. Roliau selsig - Beca Miller, Cysgod y Coed. Bara brith - Catherine Woodward, Glas y Dorlan. Tarten afalau - Eleanor Evans, Nantymedd. Cacennau cwpan, cystadleuaeth i ddynion yn unig - Ron Coombes, Penlanmedd. Coginio i blant: Cacennau crisbi siocled - Jac Hockenhull, Pentre. Cacennau cwpan - Sara John, Pentre. Pizza wedi addurno - Sara John, Pentre. Gwddf-dorch fwytadwy - Sara John, Pentre. Cyffeithiau a gwinoedd: Jar o jam - Joyce Dixon, Ty Lon. Jin eirin duon bach - Paula Barker, Ty Coch. Jeli ffrwythau - Iris Quan, Blaencwm. Picl cymysg - Gwyneth Jones, Noyadd. Ffotograffiaeth: Briciau a cherrig - Katie James, Pandi. Llun diarwybod - Dewi Williams, Cellan. Dŵr - Jessie Frith. Trwy'r drws - Sue Powell, Tancoed. Anifeiliaid - Annwen Williams, Maes Gwyn. Cymeriad pentref - Glynis Gratwick. Celf oedolion: Tirlun lleol - Claire Parsons, Ty Gof. Celf i blant: Addurno llwy bren - Jac Hockenhull, Pentre. Arlunio adeilad o Geredigion - Wil Hockenhull, Pentre. Arlunio anifail - Jenny Studman, Pantunos. Traethawd Cymraeg dan 8 - Beca John, Pentre. Traethawd Cymraeg dan 11 - Sara John, Pentre. Traethawd Cymraeg dan 16 - Daniel John, Pentre. Traethawd Saesneg dan 11 - Jessica Henderson, Pantyfedwen.



Cystadleuaeth i gynllunio logo parhaol i'r Sioe - Alex Fox, Awelon. Sioe gŵn: Ci defaid gorau - Dewi Williams, Cellan. Ci mewn gofal plentyn - Rhydian Quan, Swn yr Afon. Ci tebygaf i'w berchennog - Annwen Bell, Maes Gwyn. Ci hapusaf - D Williams. Ci yn y cyflwr gorau - Ryan Jenkins, Clwtypatrwm. Hoff gi y beirniad - Rebecca Doswell.

Alltyblaca

Cwrdd Diolchgarwch

Cynhelir Cwrdd Diolchgarwch Capel Alltyblaca nos Sul, Hydref 25 am 7.00y.h. gyda'r Parchedig Goronwy Evans yng ngofal y gwasanaeth. Croeso cynnes i bawb.



Wil Hockenhull a Sara John yn gydradd gyntaf yn ennill y marciau uchaf yn adran y plant yn Sioe Llanfair Clydogau gyda'r llywydd Sheila Davies.

Cinio Cawl Aur



Hoffem dynnu sylw at y gwaith da sydd wedi cael ei wneud ers tair blynedd i helpu pobol hŷn pentrefi Llanfair a Chellan gan ddwy fenyw o'r ardal, sef Linda Quelch o Lanfair ac Amanda Newman o Gellan. Sefydlwyd y fenter er mwyn rhoi cyfle i'r rhai hŷn i gymdeithasu dros pryd ysgafn gyda gemau wedyn i'w difyrnu.

Ar ddydd Llun, Medi 21, yn ogystal â lluniaeth ysgafn yn neuadd Llanfair, cafodd pawb wahoddiad i fynd allan i de i gaffi yr Hafan yn Nhregaron lle cawsom groeso mawr. Diolch i Linda, Amanda a Sally Leech am eu holl waith gwirfoddol sy'n rhoi cymaint o bleser i'r rhai sy'n cwrdd yn rheolaidd.

Diolch bois am eich help



Ar brynhawn Sadwrn, Medi 19eg, cynhaliwyd barbeciw yn Tanyresgair i ddiolch i'r rhai o'r pentref oedd wedi bod yn helpu gyda'r gwaith o adnewyddu wal y fynwent. Alan oedd prif drefnydd y gwaith a'r rhai a fu'n helpu oedd, Ieuan Thomas, Tim Evans, Arwyn Evans, Harold a Brynmor Thomas. Maent wedi bod wrth y gwaith ers dechrau'r flwyddyn.

Diolch i Sally am baratoi tystysgrif wedi ei fframio i'w roi i'r gweithwyr, a diolch o galon i Alan a Sally am groeso mor gynnes.

Llanbedr Pont Steffan

Merched y Wawr

Braf oedd croesawu'r aelodau nôl i dymor newydd wedi seibiant dros yr haf. Dechreuwyd y noson gyntaf gyda munud o dawelwch er cof am Mrs Dilys Godfrey, aelod ffyddlon o'r mudiad a fu farw yn ddiweddar. Wedi cyfarfod byr yn trefnu gwahanol weithgareddau dyma Gwyneth yn cyflwyno ein siaradwraig gwadd am y noson sef Sue Evans o gwmni gwin Llaethliw, Neuadd Lwyd, Aberaeron.

Soniodd Sue am daith y gwinwydd o'r eiliad iddynt gyrraedd clos Llaethliw trwy'r tyfu, y tocio, y tynnu hyd nes bod y poteli o win coch, gwyn a rhosliw yn cael eu gwerthu o gwmpas y wlad. Gwelwyd y broses yma, a gymrodd bum mlynedd i'w chwblhau, trwy gyfrwng lluniau trawiadol a dynnwyd gan aelodau'r teulu i gofnodi'r datblygiad. Dysgom fod Richard ei gŵr, sy'n gweithio allan yn Nigeria, yn cysylltu yn ddyddiol gyda Jac eu mab, sy'n rhedeg y winllan, trwy skype neu'r iPad er mwyn cydweithio ar y fenter, ac mai Megan eu merch sy'n gyfrifol am godi proffil y cwmni ar wefannau cymdeithasol. Hyfryd oedd deall fod Richard wedi dod i ben â chael gafael mewn llun o Sgwner Llaethliw mewn siop hen greiriau allan yn America a'i brynu er mwyn ei gael yn ôl yn Llaethliw. Diddorol hefyd oedd cael ychydig o hanes y sgwner gan Sue ar ôl iddi fod yn gwneud gwaith ymchwil ar y cwch yn y Llyfrgell Genedlaethol. Erbyn hyn mae'r caban blasu wedi agor a gan fod Sue wedi pasio arholiad i werthu alcohol mae nawr yn bosib i alw mewn yn Llaethliw i gael ychydig o flas ar y gwin cyn ei brynu. Soniodd Sue hefyd am gynlluniau'r cwmni am y dyfodol - sef adeiladu gwindy i boteli'r gwin a hefyd y gobaith o agor caffi i'r ymwelwyr.

Fe gytunodd pawb bod y teulu cyfan yn haeddu clod am fentro mewn maes hollol newydd iddynt a diolchwyd i Sue am gyflwyno hanes y gwin mewn ffordd gartrefol a hwylus.

Mae'n argoeli i fod yn flwyddyn dda i'r Mudiad ar ôl cyfarfod cyntaf diddorol iawn.

Bydd y cyfarfod nesaf ar 12 Hydref: Celf a cherdd yng nghwmni Phil Huckin a Cyril Jones.

Aelwyd yr Urdd

Cynhelir cyfarfod agoriadol tymor newydd Aelwyd yr Urdd yn Ysgol Bro Pedr (Campws Iau) nos Fawrth 6 Hydref o 7 hyd 8.15 o'r gloch. Dewch â'ch syniadau ar gyfer y misoedd nesaf. £6.50 yw'r tâl aelodaeth am y flwyddyn cyn 5 Tachwedd a £7.50 ar ôl hynny. Croeso i aelodau hen a newydd.

Cydymdeimlad

Estynnir cydymdeimlad dwysaf â phawb sydd wedi colli perthnasau yn

ystod y mis.

Priodas Aur

Yng nghanol mis Medi dathlodd Dai ac Avanna Evans, Brynbach, Rhodfa Glynhebog eu Priodas Aur. Iechyd da i chwi am flynyddoedd eto.

60 oed

Dymuniadau gorau i Aeron Hughes, Cwmhendryd a ddathlodd ei ben-blwydd yn 60 oed ganol mis Medi.

Diolch

Dymuna Dai ac Avanna, Brynbach, Rhodfa Glynhebog ddiolch o galon i bawb am y llu cardiau, dymuniadau gorau a'r anrhegion a dderbyniwyd ganddynt ar achlysur eu Priodas Aur.

Taith seiclo

Hoffai Dion a'r teulu, Rhosalaw, Talgarreg, sef ŵyr Ieuan a Gaynor Jones, Glynteifi, ddiolch i bawb a gymerodd ran yn ei daith seiclo ddiweddar er cof am ei fam. Hefyd, hoffai ddiolch i bawb a gyfrannodd drwy helpu ar hyd y daith neu drwy noddi yn ariannol. Diolch yn fawr.

Noson yng nghwmni Iolo

Mae Iolo Williams yn cefnogi Rhun, Olmarch, a Cheryl o Gwmn wrth iddynt baratoi at godi arian ar gyfer Canolfan Canser Felindre - taith Patagonia ym mis Tachwedd. Maent wedi ymrwmo i godi £6000 ar gyfer yr elusen haeddiannol hon. Dywed Iolo y bydd Rhun a Cheryl yn dilyn ôl traed ein cyndeidiau, wrth iddynt ddathlu 150 mlynedd ers glaniad y Cymry yn Ne America, wrth ymgymryd a her arbennig, trec o chwe niwrnod drwy fforestydd, dros fynyddoedd, dyffrynnoedd rhewlifol a golygfeydd syfrdanol o fynyddoedd yr Andes. Byddant yn gwersylla, cario eu cit a cherdded hyd at ddwy awr ar hugain mewn diwrnod. Bydd yn sialens heriol ond nid ddaw'n agos at y sialens mae cleifion sy'n dioddef o ganser yn gorfod ei wynebu'n ddyddiol. Plis ymunwch â fi yn Neuadd y Celfyddydau Coleg Llanbedr ar Hydref 22ain am 7yh, i godi arian ar gyfer Felindre. Bydd pob ceiniog yn helpu yr ymgyrch i orchfygu canser.

Cymdeithas Hanes

Agorwyd tymor newydd y Gymdeithas nos Fawrth, Medi 22, drwy gynnal yr unfed Cyfarfod Cyffredinol Blyneddol ar ddeg, â Selwyn Walters yn y gadair. Cyflwynodd adroddiad cynhwysfawr am weithgaredd y flwyddyn ddiddorol aeth heibio, gan ddiolch i'r swyddogion ac aelodau'r pwyllgor am eu gwaith trylwyr. Dywedodd fod presenoldeb yr aelodau yn arbennig o dda ym mhob cyfarfod.

Bu gwerthiant Calendr 2015 yn llwyddiannus, ac mae calendr 2016 wedi ei argraffu'n barod, ac ar werth



Tîm dan bymtheg yng nghystadleuaeth y Sevens Aberaeron yn dod yn ail.



Tîm Ieuenctid Llanbedr a enillodd y Plat yng Nghystadleuaeth y Sevens.

yn yr Amgueddfa am £6.

Y Gymdeithas Hanes sy'n gyfrifol am weithgaredd yr Amgueddfa, a dywedodd bod 2014-15 wedi bod yn un arbennig yn hanes tre Llanbedr wrth i'r safle yma agor, a denu ymwelwyr o bob man. Diolchwyd eto i'r rhai fu'n gyfrifol am osod a newid y casgliadau yn ystod y flwyddyn, ac am y gwaith cyson sy'n mynd ymlaen i godi arian er mwyn cynnal y lle.

Braint oedd cael ein dewis i fod yn safle digido ar gyfer Casgliad y Werin, er mwyn cofnodi hanes a threftadaeth ardal Llanbedr a'i osod ar wefan y Llyfrgell Genedlaethol.

Ni bu enwebiadau newydd ar gyfer Swyddogion a Phwyllgor 2015-16 felly ail-etholwyd y rhai fu yn y swyddi'r llynedd. Cyn cloi'r Cyfarfod cyffredinol, bu'r Athro David Austin yn sôn am brosiect y gobeithir ei gyflawni yn ystod y 2-3 mlynedd nesaf, sef cynhyrchu llyfr newydd fydd yn ddiweddariad ar hanes Llanbedr a'r fro.

Yn ystod ail ran y noson, croesawyd Hazel Thomas, sy'n rheolwraig adrannol ym mhrosiect Casgliad y Werin yn y Llyfrgell Genedlaethol, i siarad am y gwaith arbennig sy'n cael ei wneud ym maes cofnodi treftadaeth. Rhoddodd hanes y bartneriaeth sydd wedi dod at ei gilydd i redeg yr adran yma, gan esbonio sut mae mynd ati i greu a chwilota ar y wefan

- fel unigolion, neu drwy ddod â dogfennau, lluniau a chreiriau i'w sganio mewn safleoedd sydd wedi eu dynodi'n arbennig gan Gasgliad y Werin - megis Amgueddfa Llanbedr yn yr ardal hon. Mae'n bwysig fod y boblogaeth lleol yn manteisio ar yr adnodd yma er mwyn cofnodi'n hanes i'r dyfodol. Neges fawr Hazel oedd fod gan bawb stori i'w ddweud - mewn llun neu ar lafar, ac mae'n rhaid eu gwarchod. Soniodd am gasgliad o dros fil o blatiau gwydr ffotograffig (negatives) wedi eu rhoi mewn sgip, ond wedi eu hachub, a'u cyflwyno i'r Llyfrgell i'w cofnodi.

Diolchwyd i Hazel gan y Cadeirydd am gyflwyno'r gwaith mewn ffordd mor heintus, ac am ei pharodrwydd i ddod i gynorthwyo gyda'r gwaith yn yr Amgueddfa.

Bydd y cyfarfod nesaf nos Fawrth, Hydref 20, 7.30 yn Hen Neuadd y Coleg, pan fydd Carrie Canham, curadur Amgueddfa Ceredigion, yn sôn am y casgliadau sydd ganddynt yno. Aelodaeth am y flwyddyn £7.50, neu £2 am noson achlysurol. Croeso cynnes i bawb.

Amgueddfa Llanbedr

Dydd Iau, Hydref 8, bydd cyfle arall i'r cyhoedd ddod â'u hen drysorau i'w prisio am ddim yn yr Amgueddfa, pan fydd Ian Taylor o gwmni Peter Francis, Caerfyrddin yn bresennol rhwng 10yb a 3yp.

Cofiwch am y daflen cwis sydd

Llanbedr Pont Steffan



Enillydd Tlws Unawd Bechgyn 15-19 oed yn Eisteddfod Rhys Thomas James Llanbedr Pont Steffan (Dydd Llun) oedd Meirion Thomas, Llanbed.

i'w cael am £1 yn yr Amgueddfa. Cyfle i ennill £25.

I'w dychwelyd i'r Amgueddfa erbyn yr 20 Hydref.

Codi arian i Glefyd y Siwgr

Ddydd Sadwrn, Awst 22, cynhaliwyd diwrnod o weithgareddau yng Nghlwb Rygbi Llanbedr i godi arian at elusen JDRC, sef ymchwil i glefyd y siwgr. Mae clefyd y siwgr, neu diabetes, yn effeithio ar blant a phobl ifainc gan amlaf ac yn gyflwr sy'n trawsnewid bywydau y rhai sy'n dioddef o'r cyflwr. Mae'r elusen JDRC yn buddsoddi mewn ymchwil i wella'r driniaeth ohono a'r nod yn y pendraw yw darganfod ateb a fydd yn arwain at wellhad llwyr ohono.

Er gwaethaf glaw trwm y bore, mentrodd bron i gant o seiclwyr o bob oed a gallu i ddilyn y tair gwahanol gylchdaith o fewn yr ardal, yn amrywio o bellterau 9, 25 a 40 milltir. Bonws, yn wir, erbyn y prynhawn, oedd gweld yr haul yn ymddangos o'r cymylau i greu amodau seiclo ffafriol iawn.

Gyda'r nos, rhostiwyd mochyn a pharatowyd bwyd arbennig gan Mair a Tony Hatcher o Gwmni Cegin Gwenog, a dilynwyd hynny gan raffl, ocsiwn a cherddoriaeth fyw gan fand lleol y Golden Geckos. Croesawyd Dr Simon Fountainpolly, Pediatriydd o Ysbyty Bronglais, a chafwyd ganddo araith bwrpasol at yr achlysur. Braf oedd gweld y Clwb dan ei sang a phawb yn cefnogi'r achos mor hael ac yn manteisio ar y cyfle i gymdeithasu, yn ogystal!

Bu'n ddiwrnod hynod o lwyddiannus a llwyddwyd i godi swm sylweddol o £6,000, ac mae'r cyfraniadau yn parhau i ddod i law. Rhyddheir gwybodaeth am y ffigwr terfynol a drosglwyddwyd i elusen JDRC o fewn yr wythnosau nesaf.

Diolch o galon i bawb a gyfrannodd mewn gwahanol ffyrdd i sicrhau llwyddiant yr ymgyrch. Diolch arbennig i'r seiclwyr, o



Mrs Ros Jones, cynrychiolydd Ambiwylans Awyr Cymru, yn derbyn sic o £1,000 oddi wrth deulu'r diweddar Mrs Annie Thomas, Nantsebon, Llanbedr (gynt o Abergorlech) sef cyfanswm y cyfraniadau a dderbyniwyd yn lle blodau er cof amdani, yn dilyn ei marwolaeth ar y 10fed o Fai eleni.



Janet Evans, Cadeirydd Bedyddwyr Cylch Gogledd Teifi a Delyth Phillips, Ysgrifennydd, yn llongyfarch y Parchedig Jill Tomos, Llywydd newydd Mudiad Chwirydd Cymru.

bell ac agos, am eu cefnogaeth a'u cyfraniadau ac i bawb wnaeth gefnogi drwy ymuno â'r gweithgareddau gyda'r nos. Hefyd, i bawb a gyflwynodd eitemau ar gyfer yr ocsiwn a'r gwobrau raffl ac am y llu cyfraniadau ariannol dderbyniwyd at yr achos.

Meistri Dartiau Llanbedr

Ar nos Fercher, roedd Llanbedr yn ganolbwynt y Byd Dartiau gyda Noswaith Meistri Dartiau Llanbedr yn Neuadd Fictoria.

Wedi ei threfnu trwy law cwmni hybu "Bishop of Bedlam" roedd 4 o chwaraewyr gorau'r byd wedi disgyn yn y dref sef Pencampwr y Byd Gary Anderson, Rhif 8 y byd Michael Smith a dau o arwyr y gem Tony O'Shea a Darryl Fitton.

Gyda'r Neuadd yn llawn o gefnogwyr y gem o dros y Deyrnas Unedig roedd gwledd o Ddartiau o'r safon orau posib gyda '180's galore' yn cael ei alw mas gyda llais cyfarwydd y gem Paul Hinks a hefyd wrth law roedd merched 'Walk on' Daniella Allfree o gwmni teledu Sky a merch leol Jade Jones. Meistr y noswaith oedd Dean Williams.

Darryl Fitton wnaeth ennill y teitl Meistri Llanbedr yn curo Michael Smith chwe choes i bump yn y

rownd gynderfynol a Gary Anderson o'r un sgôr yn y rownd derfynol.

Darryl Fitton wnaeth ennill y teitl Meistri Llanbedr yn curo Michael Smith chwe choes i bump yn y rownd gynderfynol a Gary Anderson o'r un sgôr yn y rownd derfynol.

Mi wnaeth y noswaith hefyd godi arian i apêl ymchwil Cancer trwy law Apêl 30 cyn 30 Nicola Higgs.

Shwmae Sumae!

Bydd aelodau o ferched y Wawr, Cyngor y dref, Disgyblion Ysgol Hŷn Bro Pedr, dysgwyr, ac eraill yn cynnal digwyddiad ar Sgwâr Harford yn Llanbedr unwaith eto eleni rhwng 10 a 12 ar ddydd Iau, Hydref 15 sef Diwrnod Cenedlaethol Shw mae!.

Eleni mae holl gaffis y dre yn cymryd rhan ac yn rhoi pice bach neu fara brith am ddim wrth i chi brynu paned rhwng 10 a 12 y bore, i'r rhai sy'n cyfarf yn Gymraeg wrth gwrs. Diolch iddynt am eu brwdfrydedd a'u cefnogaeth.

Y caffis yw- Hedyn Mwstard. Y Pantri, Sosban fach, Dai's diner, Mulberry, Conti's, Artisan, caffï Neuadd y dre a Chaffi Mark Lane.

Cofiwch dechreuwch bob sgwrs yn Gymraeg! a dewch am sgwrs. Cysylltwch ag Ann Morgan os gallwch ddod i helpu - 01570422413

Ieuan Jones
Adferwr Lluniau
Cwrtycadno



Gwasanaeth
troi
Vhs i Dvd

Rhoi bywyd newydd i hen lun

Ffôn: 01558 650153

e-bost: ieuan@glynhebog.co.uk

Y we: cwrtphtorestore.com



Osian Potter
Toio a Gwaith Saer

Adeiladau Newydd · Ail-doi
Ffasgiau, Soffitau a Chafnau
Gwaith Simnai · Gwaith Plwm
Saer Coed

07816 869 047 · 01570 471 749
osianp@btinternet.com

Cymwys, 14 Blynedd o Brofiad, Geirda ar Gael

ANDREW JAMES

PLYMWR PROFIADOL



Gwasanaethu boeler olew
Gwres canolog

Ystafelloedd ymolchi a cheginau
Ffôn: 07811052757

Ebost: dandrewj@icloud.com

Gwersi TELYN a
Gwersi PIANO preifat



Am wybodaeth bellach
cysylltwch â

Georgina Cornock-Evans
07967 648336

Gwasanaethu, Cynnal a Chadw
- Boiler a Ffyrnau Olew
- Pymplau Gwres o Ffynonhellau'r
ddaeir a'r awyr
- Paneli Thermal Solar
- Silindrau heb awyrellau



01559 370997 / 07966 592183
aled.evans1@btinternet.com



Enw: **Hefin Jones**
Oed: 19
Pentref: Pencader
Gwaith: Weldiwr
Partner: *Single and ready to mingle.*
Teulu: Mam a Dad

Unrhyw hoff atgof plentyndod.
Mynd i Royal Welsh gyda Tadeu pob blwyddyn.

Hoff raglen deledu yn blentyn.
Power Rangers.

Yr eiliad o'r embaras mwyaf.
Hwdi mewn i bwced o fla'n teulu, ffrindiau a llawn tafarn o bobol. Doedd dim llawer o bobol ar ôl yn yr ystafell pan benes i hwdi.

Y peth pwysicaf a ddysgest yn blentyn.
Ddim i fwyta eira melyn.

Taset ti'n gallu mynd nôl mewn amser, beth fyddet ti'n dweud wrth dy hun yn 16 oed?
Trial cael ambell i benwythnos bant heb fod yn feddw dwll.

Pan oeddet yn blentyn, beth oeddet eisiau bod ar ôl tyfu?
Gyrru tractor pob dydd. Diolch byth bod fi wedi gweld y gole a newid meddwl.

Beth oedd y peth ofnadwy wnest ti i gael row gan rywun?
Towles i fforc fwyd at yr hen foi a bwrw fe yn ei dalcen; ges i glipen ar fy mhen ôl.

Pryd a ble wyt ti mwyaf hapus?
Pan fi gyda'r Lads.

Beth yw dy lysenw?
Hefs, Ceilog, Centre Parks, Effin.

I ba gymeriad enwog wyt ti'n debyg?
Tom Cruise.

Pwy yw dy arwyr?
Shane Williams.

Taset ti'n fisged, pa fath fyddet ti a pham?
Oreo, achos ti moyn tynnu'r top off i gael gweld beth sydd tano.

Taset ti'n anifail, pa anifail fyddet ti a pham?
Mwnci. Achos mae ganddo lot o flew a hoffi flasho'i ben ôl.

Beth yw dy arbenigedd?
Weldo ac acto fel clust.

Beth yw'r peth gorau am dy swydd bresennol?
Gwneud rhywbeth gwahanol bob dydd.

Beth yw'r peth gwaethaf am dy



swydd bresennol?
Gorfod gweitho mas yn y glaw nes dy fod yn steics i dy bants!

Y peth gorau am yr ardal hon?
Ffrindiau da a ddim llawer o droseddau yn digwydd.

Y peth gwaethaf am yr ardal hon?
Does dim llawer i neud 'ma.

Pa mor wyrdd wyt ti?
Mor wyrdd a 'tyre' car.

Pa iaith wyt ti'n defnyddio gyntaf?
Cymraeg, ffeili siarad Saesneg.

Pa fath o ddeddf hoffet ti weld y Cynulliad yn ei phasio?
Bod dim speed limits ar ôl 10 o'r gloch y nos.

Pa fath o berson sy'n mynd o dan dy groen?
Rhywun sydd yn meddwl ei fod yn well na phawb arall.

Sut fyddet ti'n gwario £10,000 mewn awr?
Beto fe gyd ar Japan i ennill Cwpan y Byd.

Pryd llefaist ti ddiwethaf?
Pan farwodd Brian ar Family Guy.

Pryd chwydaist ti ddiwethaf?
Ar patio ffrind ar ôl nosweth yng Nghaerfyrddin. Sylwes i ges i noodles y nosweth cyn 'ny.

Pryd est ti'n grac ddiwethaf?
Pan o'n i'n trial esbonio i boi Polish beth i wneud yn gwaith a fe'n ffili deall beth o'n i'n trial gweud.

Ble oedd y lle mwyaf annisgwyl i

ti ddihuno ynddo yn y bore?
Dihuno yng Nghaerdydd ar ôl bod mas yn Aberystwyth. Nosweth arbennig!

Am beth wyt ti'n breuddwydio?
Miloedd yn y banc, super model fel gwraig a byw mas yn Monte Carlo. Dim ond breuddwydio!

Pryd oeddet ti'n borcyn diwethaf o flaen person arall?
Ar balcony yn Ibiza gyda tua 20 o bobl yn edrych lan arnaf.

Beth oedd yr eiliad balchaf i ti'n broffesiynol?
Weldo shed am y tro cynta ac wedyn ei weld e lan.

Ac yn bersonol?
Adeiladu y John Deere self-propelled carafan i'r Royal Welsh ac ennill y wobr am y garafan orau.

Wyt ti'n dyfaru rhywbeth?
Trial yn galetach yn ysgol.

Beth yw dy gyfrinach i gadw'n gryf?
Codi harn yn gwaith bob dydd.

Sut wyt ti'n cadw'n heini?
Rhedeg adref dwy filltir ar ôl i'r bws adael fi bant ar y rhewl fawr. Mae'n digwydd yn fwy amal dyddie 'ma.

Beth yw'r cyngor gorau a roddwyd i ti?
Paid gorweithio dy hunan, ymlacia a joia dy fywyd tra bod yn ifanc!

Yr eiliad a newidiodd dy fywyd.
Pan ddachreuais C.Ff.I Llanllwni.

Disgrifia dy hun mewn tri gair.

Bywiog, Strab, Caredig.

Beth yw barn pobl eraill amdanat ti?
Off fy mhen.

Pa gar wyt ti'n gyrru?
Hoffwn i fod yn gyrru Ferrari ond fi'n styc gyda Ford Focus.

Beth yw dy hoff air?
Clust.

A'th hoff adeilad?
Stadiwm y Mileniwm. Cartref i'r tîm rygbi gore yn y byd.

Gyda phwy fyddet ti'n hoffi bod yn sownd ar ynys anghysbell?
Bear Grylls. Bydd gobeth byw bach yn hirach gyda fe 'da fi.

Beth yw'r cludfwyd o'th ddewis?
Chinese duck chow mein.

Beth yw dy ddiod arferol?
Lager Top yn yr haf a Guinness yn y gaeaf.

Beth wyt ti'n ei ddarllen?
Farmers Weekly.

Beth yw dy hoff arogl?
Porfa sydd jyst wedi cael ei dorri.

Sut wyt ti'n ymlacio?
Peint gyda ffrindiau a chwarae.

Sawl ffrind sydd gennyt ti ar facebook?
1236.

Sawl teest y dydd wyt ti hala?
Dim llawer. Snap chat a Whatsap fi'n eu defnyddio i siarad gyda ffrindie.

Pwy yw'r person enwocaf ar dy ffôn symudol?
Eiros MBE, swyddfa CFfl.

Pa beth fyddet ti'n newid am dy hun?
Bod yn drodfedd yn dalach

Pa ran o dy gorff yw dy hoff ran?
Pen ôl

Ar beth y gwnest orwario arno fwyaf?
Nosweth mas yng Nghaerdydd pan waries i dros £300 ar gwrw.

Pa beth wyt ti'n ei drysori fwyaf?
Ffôn symudol.5

Pwy oedd y dylanwad mwyaf arnat?
Yr hen foi sy'n dal i fod yn ddylanwad.

Pa dri lle yng Nghymru yr hoffet ymweld â nhw cyn dy fod yn 50?
Zip world, yr Wyddfa, Sir Fôn.

Pa dair gwlad yr hoffet fynd iddyn nhw cyn marw?
Jamaica, Hawaii, Awstralia.

Drefach a Llanwenog

Y Gymdeithas Hŷn

Roedd yr haul yn gwenu unwaith eto wrth i'r aelodau fynd ar daith ola tymor yr haf am 2015. Y nifer ychydig yn llai y tro hwn am amryw resymau, a gwelwyd eisiau'r ffyddloniaid oedd yn methu bod gyda ni.

Taith i Dŷ Tredegar ger Casnewydd oedd hwn. Cafwyd hanes y lle o'r Oesoedd Canol a theulu'r Morganiaid yn berchen ar eiddo helaeth, ond erbyn dechrau'r ganrif diwethaf yr arian yn cael ei wastraffu a'r stad yn dirywio. Bu'r adeilad yn Ysgol Gatholig am tua chwarter canrif, ond yna bu Cyngor Casnewydd yn gofalu amdano, gan ei ail-ddodrefnu er mwyn i'r cyhoedd cael ymweld â'r lle hyfryd yma, ac ers 2012 mae'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol wedi cymryd gofal am y safle.

Caed digon o amser i fwynhau'r gerddi a'r parc, ac ambell baned o de, cyn cychwyn am adre. Aros yn y Plough, Rhosmaen am bryd o fwyd blasus, a phawb wedi mwynhau'r diwrnod.

Bydd cyfres cyfarfodydd y gaeaf yn cychwyn ym mis Hydref. Capel Bethel, Drefach fydd y lleoliad cyntaf ar y 14eg o'r mis, i ddechrau am 1.30 o'r gloch.

Bethel a Brynteg

Bydd Cyfarfodydd Diolchgarwch y capeli fel a ganlyn:

Bethel nos Fawrth Hydref 6ed, am 7 o'r gloch, a'r Parch. Emyr Lyn Evans, Pontargoithi yn pregethu. Nos Fawrth canlynol, Hydref 13eg, ym Mrynteg am 7 yh gyda'r Parch. Carwyn Arthur, Bwlchgwyt, Tregaron. Croeso cynnes i bawb.

Eglwys Santes Gwenog

Cynhelir y Cwrdd Diolchgarwch nos Lun, Hydref 5ed am 7 o'r gloch, a'r ficer gwadd fydd Dr Alan Barton, Caplan Prifysgol y Drindod Dewi Sant, Llambled. Yn ôl yr arfer, cynhelir Swper y Cynhaeaf yn yr eglwys fach wedi'r gwasanaeth. Enwau os gwelwch yn dda i Mrs Lynn Goodall, 01570 481256, neu i aelodau'r Eglwys.

Nos Wener, 18fed o Fedi, cynhaliwyd cwis, â chaws a gwin yn yr Eglwys fach. Tîm Ficer Suzie, Caroline a Lynn ddaeth i'r brig - da iawn chi! Paratowyd y cwestiynau gan Keith, a Geraint oedd yr holwr.

Trannoeth, ar Sadwrn 19eg, daeth Cymdeithas Hanes Tregaron i dreulio orig hapus yng nghwmni Pauline a Mary. Bu'r ddwy'n adrodd hanes yr eglwys hynafol i'r gwrandawyr eiddgar. Diolch yn fawr am eich hymweliad â ni.

Yn ystod Gwasanaeth y Cymun pnawn Sul 20fed, cysegrodd y ficer rhosyn â blannwyd yn y fynwent gan aelodau Sefydliad y Merched Llanwenog, i gofnodi canmlwyddiant cenedlaethol y

mudiad.

Gweddiwn am y miloedd o ffoaduriaid truenus sy'n ceisio lloches yng ngwledydd y gorllewin, rhag y trais, gorthrymder a'r rhyfela yn eu gwledydd.

Cofiwn am Eleri a'r teulu, 3 Highmead Cottages, yn eu hiraeth o golli Iorwerth (Flash), ac estynnwn ein cydymdeimlad atynt, ac â'r teuluoedd sydd yn galaru wedi colli anwyliad.

Dymunwn wellhad buan i bawb sy'n anhwylyd, naill ai gartref neu yn yr ysbyty, yn arbennig Roger Clive Powell, Pontbrendu.

Clwb 100 mis Awst: 1. Wendy Mellor, Rhiwson Isaf; 2. David Cooper, Cwmann; 3. Wyn Davies, Tyngrug.

CFfl Llanwenog

Yng nghanol bwrllwm a joio y Sioe Fawr yn Llanellwedd bu'r Clwb yn brysur dros ben yn cystadlu'n frwd yng nghystadlaethau'r Ffermwyr Ifanc. Roedd hi'n wythnos lwyddiannus a'r clwb yn dod yn 4ydd yng nghystadleuaeth y cabaret a'r tîm bechgyn hŷn a'r tîm iau hefyd yn dod yn 4ydd yng nghystadleuaeth tynnu'r gelyn.

Llongyfarchiadau i Carwyn Davies a ddaeth yn gyntaf yn yr adran grefft, Steffan Jenkins a ddaeth yn 2il yn y cneifio ac i Llyr Davies oedd yn rhan o dîm rygbi 7 bob ochr Ceredigion a ddaeth yn gyntaf.

Mae'r clwb eisoes wedi dechrau cwrdd eto ers mis Medi. Cafwyd noson arweinyddion yn Neuadd yr Hafod ar 7 Medi lle'r oedd yn braf gweld nifer o wynebau newydd yn ein mysg a noson o fwynhau a chwysu pan wnaethon ymweld â lle chwarae Ar y Bêl ar yr 14eg.

Ar hyn o bryd mae'r clwb yn brysur yn paratoi ar gyfer diwrnod maes y sir a fydd yn cael ei gynnal ar 10 Hydref ac hefyd yn dechrau meddwl am baratoi ar gyfer Eisteddfod y Sir ddiwedd mis Hydref - fe fydd e'n ma' chwap.

Cofiwch hefyd am Gwrdd Diolchgarwch Clwb Llanwenog ar nos Lun, 19 Hydref yng Nghapel Seion, Cwrtnewydd. Croeso cynnes i chi ymuno â ni.

Os oes gennych ddiddordeb ymuno â'r clwb neu am ragor o wybodaeth ewch i'r wefan: www.cffillanwenog.org.uk

Ysgol Llanwenog

Hoffem fel ysgol groesawu'r pum disgybl newydd sydd wedi dechrau gyda ni yn y dosbarth Derbyn yn Llanwenog. Mae William Archard, Max Edwards, Steffan Howells, Gwenno Mills a Rhun Potter bellach wedi setlo yn gysurus ac yn mwynhau y gweithgareddau amrywiol.

Bu'r plant yn cystadlu yng nghystadlaethau amrywiol yn sioeau Cwmsychbant a Gors Goch yn ystod



Cafwyd diwrnod Môr ladron yn nosbarth y Cyfnod Sylfaen Ysgol Llanwenog ar ddiwedd y tymor. Bu'r plant yn gwisgo yn eu dillad Môr ladron lliwgar a bu gwledd fawr yn y prynhawn.

yr haf a derbyniwyd gwobrau fel a ganlyn: Gethin Jones-Thomas 2il am arlunio, Daniel Pope 2il am arlunio, Hafwen Davies gwobr am lawysgrifen ac Elen Morgan 3ydd am arlunio. Llongyfarchiadau iddynt i gyd.

Cynhaliwyd gwasanaeth ffarwelio yn yr ysgol cyn diwedd tymor yr haf er mwyn gwobrwyo ac ymfalchïo yn llwyddiant y disgyblion oedd yn gadael am addysg uwchradd ym Mis Medi. Diolch arbennig i Mrs Liz Mills am fod yn bresennol i gyflwyno ei tharian i'r disgybl a wnaeth ddangos ymdrech fawr yn ystod y flwyddyn. Sion O'Keeffe gipiodd y darian am eleni, llongyfarchiadau mawr iddo. Pob dymuniad da i'r pedwarawd sydd wedi symud ymlaen bellach sef Hafwen Davies, Molly Greenfield, Luke Thomas a George Labram. Byddwn yn dilyn eich trywydd gyda diddordeb mawr iawn.

Casglwyd £100 tuag at elusen gancr Tenovous yn ystod y prynhawn.

Derbyniodd yr Ysgol y drydedd ddeilen Cynllun Ysgolion Iach Ceredigion am hyrwyddo maeth a bywyd iach yn yr Ysgol.

Bu plant yr adran Iau ar ymweliad â Llanerchaeron er mwyn dysgu am fywyd ar y fferm ac am gynnyrch a diogelwch. Cafwyd diwrnod bendigedig wedi ei drefnu'n effeithiol gan glybiau Ffermwyr Ifanc Ceredigion. Bu'r plant yn gwrando ar gyflwyniadau graenus yn llawn gwybodaeth a chyfleoedd i weld ac i wneud amrywiol weithgareddau. Diwrnod penigamp yn wir.

Aeth plant y Cyfnod Sylfaen ar ymweliad â Fferm Tanrhos i weld ac i astudio'r Felin Wynt fel rhan o'i gwaith Technoleg yng Nghynllun y dair Ysgol. Cafwyd croeso hyfryd yno a bu'n ymweliad arbennig cyn ymlwybro ar droed yn ôl i Ysgol Cwrtnewydd.

Bydd y Cyngor ysgol yn trefnu Prynhawn Coffi yn yr ysgol ar 2 Hydref am 2 o'r gloch er mwyn codi arian tuag at elusennau lleol.

Croeso i bawb ymuno gyda ni am baned i gefnogi'r achos.

Bydd Gwasanaeth Diolchgarwch yr ysgol yn cael ei gynnal ar 23 Hydref yn Eglwys Santes Gwenog. Bydd y gwasanaeth yn dechrau am 2 o'r gloch, dewch yn llw i gefnogi'r plant.

Priodas Ruddem

Llongyfarchiadau i Daniel ac Yvonne Evans, Tanderi ar ddathlu eu Priodas Ruddem yn ystod mis Mehefin. Pob dymuniad da am flynyddoedd lawer eto o fywyd priodasol.

Priodas

Yng nghapel y Cwm, Cwmsychpant ar ddydd Sadwrn unwyd mewn priodas Meurig a Menna, Ty Clyd, Drefach. Pob dymuniad da i chwi ar eich bywyd priodasol.

Colled

Estyn ardal ei chydymdeimlad dwysaf ag Eleri a'r teulu yn Highmead Cottages ym marwolaeth cymar, tad a thad-cu annwyl iawn yn Iorwerth James neu Flash fel yr adnabyddwyd ef drwy gydol y fro. Roedd wedi cael salwch byr iawn ac fe fu ei angladd yn breifat yn Amlosgfa Aberystwyth ddiwedd y mis.

Diolch

Dymuna Daniel ac Yvonne Evans, Tandderi, ddiolch i bawb am y llw dymuniadau da a dderbyniasant adeg dathlu eu Priodas Ruddem.

Priodas Dda

Llongyfarchiadau i Menna a Meurig, Ty Clyd, Drefach, ar achlysur eu priodas yng Nghapel y Cwm ddydd Sadwrn, Medi 26. Dymuniadau gorau a phob bendith iddynt fel teulu.

18 oed

Bydd Rhodri Hatcher, Abernant yn 18 oed ar ddiwedd mis Hydref. Mwynha'r dathlu a phob dymuniad da i ti.

Yn y Gegin gyda Gareth



Bwyd Cwpan Rygbi'r Byd

Wrth gamu mewn i fis Hydref a Chwpan Rygbi'r Byd yn ei hanterth, y mis yma rwyf am ganolbwyntio ar rai o'r gwledydd hynny sy'n cystadlu, trwy roi rhai rysetiau o'r ugain gwlad.

Bwydydd byr-bryd a blasus, i'w mwynhau o flaen y teledu wrth wyllo'r gemau sydd gennyf. Pob hwyl wrth daclo'r rysetiau!

Cym-on Cymru!

Gareth

'Lobio' o Wlad Georgia

(Dip Ffa a chnau)

Cynhwysion

- 1 llond llwy fwrdd olew
- 1 winwnsyn coch wedi'i dorri'n fân
- 1 ewyn garlleg
- 1 llwy de coriander / a sinamwn
- 2 x tun kidney beans
- 1 llond llwy fwrdd finegr coch
- 7 llwy fwrdd stoc llysiau
- 100gm cnau Ffrengig (walnuts)
- Ychydig o bersli



Dull

1. Cynheswch olew mewn padell, a ffriwch y winwnsyn a'r garlleg am tua 10 munud, yna i mewn â'r sbeis, y kidney beans, finegr a'r stoc. Mudferwch am 5 munud.
2. Rhewch $\frac{3}{4}$ y gymysgedd mewn prosesydd bwyd gyda'r cnau a'r persli i greu pureé. Ychwanegwch bupur a halen i'w flasu.
3. Gosodwch mewn powlen, a gweddill y ffa ar y top, ychydig o gnau a phersli. Gweinwch â bara pitta.

O Gymru - 'Welsh Rarebit'

(Byrbryd Cymreig perffaith - digon i 6)

Cynhwysion

- 350gm o gaws Cymreig wedi gratio
- 1 wy wedi'i guro
- 2 llond llwy fwrdd cwrw Cymreig
- 1 llwy de saws Caerwrangon
- 1 llond llwy de mwstard Cymreig
- Pinsied o bupur cayenne
- 12 tafell o fara



Dull

1. Cymysgwch 300gm o'r caws â'r wy, cwrw a'r cynhwysion eraill.
2. Pobwch y bara ar y ddwy ochr o dan y gradell.
3. Rhennwch y gymysgedd dros y tafelli tost, ysgeintiwch â gweddill y caws.
4. Rhewch yn ôl o dan y gradell tan eu bont yn euraidd. Gweinwch gyda mwy o fwstard neu bicl Cymreig.

'Lamingtons'

(Cacennau poblogaidd o wlad Awstralia - ysgafn ond melys)

Cynhwysion

- 1 cacen Madeira
- 100gm siocled tywyll
- 2 llond llwy de powdwr coco
- 100gm siwgr mân
- 3 llond llwy fwrdd o laeth
- 100gm dessicated coconut



Dull

1. Torrwch y gwaelod a'r ochrau o'r gacen Madeira, ac yna'n giwbiau $1\frac{1}{2} \times 1\frac{1}{2}$ modfedd.
2. Gosodwch yn yr oergell am $\frac{1}{2}$ awr.
3. Mewn sosban, toddwch y coco a'r siwgr yn y laeth; dewch â'r hylif i'r berw ac arllwyswch dros y siocled, a chymysgwch.
4. Defnyddiwch ddwy fforc i dipio'r cacennau ynddo, ac yna'u rholio drwy'r coconut. Gadewch i setio am tua $\frac{1}{2}$ awr, yna gweinwch - a gwenwch!

Cwrtnewydd

Ysgol Cwrtnewydd



Croesawyd pawb yn ôl i'r ysgol ar ôl gwyliau haf hyfryd, a braf oedd cael croesawu merch fach newydd i'r ysgol sef Ella Hopley. Mae erbyn hyn wedi ymgartrefu ac wedi gwneud ffrindiau newydd.

Llongyfarchiadau mawr i'r ysgol gyfan am ei llwyddiant yn dod yn ail yng nghystadleuaeth gardd mewn whilber ar y thema Yellow Brick Road yn y Sioe Fawr yn Llanellwedd ac hefyd am ennill yn y sioeau lleol. Braf oedd ennill gwobr o £150 tuag at offer garddio. Diolch yn fawr i bawb am bob cymorth gyda'r prosiect hwn.

Llongyfarchiadau i bawb fu'n llwyddiannus yn Sioe Cwmsychpant a Sioe CFfll Llanwenog a Gorsgoch gyda'r arlunio a llawysgrifen, ac am ennill y darian i'r ysgol â'r nifer o bwyntiau yn Sioe Gorsgoch.

Mae ysgolion Llanwenog, Llanwnnen a Chwrtnewydd erbyn hyn yn brysor gyda'r cynllun tair ysgol, a'r plant yn cymdeithasu a chyd-weithio gyda phlant yr un oed.

Rydym wedi cynnal ein clwb Urdd cyntaf am y tymor a braf oedd croesawu Rhydian o'r Urdd am noson o curling; fe wnaeth y plant fwynhau'r profiad yn fawr iawn.

Bu plant Cyfnod Allweddol 2 yn ffodus iawn i gael cyfle i gymryd rhan mewn gweithgareddau'r fferm a drefnwyd gan CFfll Ceredigion yn Llanerchaeron. Cafodd pob plentyn ddiwrnod addysgiadol a llawn hwyl.

Cynhaliwyd etholiad y Cyngor Ysgol ar ddechrau'r tymor a dyma'r plant a fydd ar y pwyllgor: Cadeiryddes - Lisa Jenkins, Is-gadeiryddes - Luned Jones, Ysgrifynyddes - Elan Jenkins, Trysoryddes - Clodagh Dalton, Aelodau Cyfnod Allweddol 2 - Sara Davies, Megan Davies, Jac Rees, Lucy Moyes a Lowri Rees, ac yn y Cyfnod Sylfaen Elis Jenkins a Glesni Rees. Ein llyfrgellwyr am y flwyddyn fydd Alaw Jones a Katy Moyes. Pob lwc i chi gyd yn eich swyddi!

Gwellhad Buan

Gobeithio fod Mrs Nanna Jones, Garth yn well yn dilyn ei llaw driniaeth yn ysbyty'r Tywysog Philip, Llanelli.

Cydymdeimlad

Daeth y newyddion trist am farwolaeth Mrs Catherine Jane Davies, Glennydd yn sioc enfawr i bawb a oedd yn ei hadnabod.

Bu'r angladd yn breifat yng Nghapel y Bryn a rhoddwyd ei gweddillion i orffwys yn y fynwent gerllaw. Cydymdeimlir yn ddwys iawn gyda'u merched, Hannah ac Anne a'r holl gysylltiadau teuluol i gyd, ynghyd â'i brodyr a'i chwaer a'u teuluoedd yn eu profedigaeth lem.

Hefyd cydymdeimlwn yn ddwys iawn gyda Mrs Ray Evans, Brynhogfaen a'r teulu yn dilyn colli ei chwaer, Mrs Elen Davies o Brengwyn yn ystod y mis.

Sioe Llandysul



Margaret Jones, Cwrtnewydd, enillodd y marciau uchaf yn yr adran cyffeithiau yn Sioe Llandysul.



Cegin Gareth
Goedwig
Llanbedr P.S.
SA48 7JP
01570 422 313

*Blodau
Cacennau
Dathliadau
Partïon*

Cofiwch gystadlu yn Eisteddfod y Papurau Bro.

Pencarreg

Y Dwrgi



Hyfryd oedd clywed bod dwrgwn yn ffynnu ar lannau'r Teifi yn nolydd Dolgwm Uchaf. Gwelwyd dau o'r creaduriaid arferai fod mor brin yn chwarae ac yn cwrso'i gilydd ar y ddôl yn ddiweddar, sy'n profi bod dŵr yr afon yn lân, bod modd cynnal a sicrhau dyfodol bywyd gwyllt yn ein hardal.

Byd y Cobiau



Mae Rachael Thomas, Dolwar fach wedi bod yn rhyfeddol o brysyr a llwyddiannus ers misoedd yn cystadlu mewn sioeau megis y Royal Windsor o flaen y Frenhines, lle'i dyfarnwyd yr ail allan o 25 o gystadleuwyr. Ymlaen wedyn i'r Lincolnshire County Show lle daeth i'r brig yn gyntaf mewn cystadleuaeth marchogaeth y Cob Trwm a'r Championship hefyd yn sicrhau iddi ei lle yn y Royal Horse of the Year Show fydd yn cael ei chynnal ym Birmingham ar 10 Hydref. Pinacl y sioeau fydd hon.

Dymunwn bob llwyddiant i Rachael yn dilyn ei dawn ym myd y Cobiau gan gofio taw amatur yw hi yn cystadlu yn erbyn pobl broffesiynol. Pob hwyl i ti Rachael.

Os ydych yn ymateb i hysbyseb yn CLONC, dywedwch wrth y cwmni ymhle y gwelsoch yr hysbyseb.

Ydych chi eisiau datblygu diddordebau neu sgiliau newydd, gweithio tuag at gymhwyster neu wella eich sgiliau ar gyfer y gweithle?

Rydym yn cynnig amrywiaeth o gyrsiau gan gynnwys; cyfrifiadura, hel achau, mathemateg, ysgrifennu creadigol, cadw'n heini, gosod blodau, coginio/pobi a llawer mwy. Cysylltwch â ni am ragor o wybodaeth:



01970 633540
admin@dysgubro.org.uk
www.dysgubro.org.uk



Ysgol Bro Pedr



Bu Elan a Beca yn canu gyda Chôr Only Kids Aloud yn y noson i ddathlu Canolfan y Mileniwm yn ddeg oed. Shan Cothi oedd yn arwain y noson drwy ganu ac actio.

Enwau Lleoedd Lleol

GWARCHOD ENWAU LLEOEDD gan David Thorne

Yn ystod yr haf bu datblygiad pwysig yn ymgyrch Cymdeithas Enwau Lleoedd Cymru i warchod enwau. Cafwyd gwahoddiad i osod ein hachos gerbron Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol y Cynulliad. Roedd y Pwyllgor yn cynnal sesiwn dystiolaeth ar Fil yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru).

Roedd yn gyfle inni ddadlau dros gynnwys enwau lleoedd o fewn cwmpas y bil. Mae llawn mor bwysig i ddiogelu enwau, yn union fel y bwriadu'r Bil warchod meini hirion, olion hynafol ac adeiladau hanesyddol. O'n profiad ni ein hunain yn yr ardal hon, roedd modd dangos mor hanfodol yw ystyried tystiolaeth enwau lleoedd wrth adlunio'r treftadaeth hanesyddol.

Atgoffwyd y Pwyllgor nad oedd y gyfraith yn amddiffyn enwau lleoedd; nodwyd enghreifftiau lu o enwau o bwysigrwydd i'r treftadaeth hanesyddol a oedd naill ai wedi'u disodli'n llwyr neu dan fygythiad gan ffurfiau gwamal. Soniwyd yn benodol am enwau megis 'Happy Donkey Hill' a 'Robin's Roost' yn ymddangos yn Nyffryn Teifi ac am ddiflaniad enw megis 'Cwm March' ger Pren-gwyn a 'Cefn Bryn Sarth' yn Nyffryn Cothi.

Mae'n anodd peidio â sylwi bod amryw o'r ffermydd sy'n cynnig gwyliau yng nghefn gwlad yn marchnata cefn gwlad ar sail treftadaeth amgylcheddol gyfoethog Cymru. Mae'r broliant yn crybwyll gwarchodaeth cynefinoedd: coed, planhigion, adar, pryfed, pysgod a chreaduriaid o bob math. Da o beth. Dyna a ddisgwyld gan gymdeithas wâr. Gresyn na fyddai'r un agwedd yn ymestyn i enwau lleoedd.

Am ymyrryd â chynefin ystlum neu am lygru tir neu nant neu am gyflwyno elfennau gwamal i adeilad o bwys hanesyddol, rhaid wynebu grym y gyfraith. Ond mae penrhwyddid i ymyrryd ag enw lle sy'n cofnodi cynefin amgylcheddol neu hanesyddol. Yr enw gwamal tristaf imi ddod ar ei draws yng ngorllewin Cymru yw 'Two Hoots' (sef 'wfft i chi a'ch enwau Cymraeg'). Ac yn ddiweddar ymddangosodd Llan Tropez ger Bae Trearddur!

Yn y sesiwn yng Nghaerdydd daeth cyfle i Aelodau'r Cynulliad holi, ac roedd yn amlwg bod cryn gydymdeimlad â'r dadleuon roedd y gymdeithas wedi eu cyflwyno gerbron y Pwyllgor. Braff oedd clywed awgrymiadau o du'r Aelodau eu hunain y dylid archwilio sut y gellid gwarchod enwau lleoedd. Hynny yw, roedd yna gydnabyddiaeth agored nad yw'r bil yn ei ffurf bresennol yn gwarchod enwau lleoedd ac roedd consynr amlwg am hynny. Ac awydd hefyd i geisio diwygio cwmpas y Bil i gynnwys enwau lleoedd. Oni lwydda ein cynrychiolwyr yn y Cynulliad i wneud hynny, mae achos i bryderu y bydd y sefyllfa'n dirywio ymhellach. Mae'r Bil yn parhau ar ei daith drwy'r Cynulliad Cenedlaethol.

Tybed a all gweithgarwch Cronfa Treftadaeth y Loteri Cenedlaethol yng Nghymru ac yng Nghernyw gynnig trywydd y byddai'n werth i'r Pwyllgor ei archwilio. Mae'r Gronfa yng Nghymru ac yng Nghernyw yn ystyried enwau yn elfen gyflawn yng nghwmpas cyllido eu gweithgarwch treftadaeth. Byddai'n dda petai modd trosglwyddo cyfran o frwdfrydedd swyddogion Cronfa Treftadaeth y Loteri yn hyn o beth, i noddwyr Bil yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) ym Mae Caerdydd.

Mae'r nodiadau misol hyn ar enwau lleoedd yn cael eu paratoi dan nawdd Cymdeithas Enwau Lleoedd Cymru.

www.cymdeithasenwaulleoeddcymru.org enwaulleoedd@gmail.com



Tyngrug-Ganol,
Cwmsychpant,
Llanybydder.

Annwyl Ffrindiau,


Helo blant, shw mae? Wel mae Hydref wedi cyrraedd ac mae'r dail yn dechrau newid eu lliwiau. 'Dw i wedi bod yn cadw'n brysur yn ceisio tacluso fy nghartref yn barod ar gyfer y tywydd oer. 'Dw i hefyd wedi bod yn brysur iawn yn cystadlu yn sioe leol Aberoncyn y penwythnos diwethaf. Mi fues yn llwyddiannus iawn ac enillais gwpan mawr am y crwbân â'r letysen drymaf. Roeddwn wrth fy modd a nawr 'dw i'n edrych ymlaen i fwyta'r letysen braf! Ydych chi erioed wedi ennill cwpan am gystadlu?

Wel, bu nifer fawr ohonoch yn brysur iawn yn ystod y mis diwethaf yn lliwio llun ond yr enillydd y mis hwn yw Megan Dafydd Lewis, Pantmeinog, Cwmann, Llambed. Da iawn ti Megan am liwio'r llun mor daclus gan ddefnyddio bron pob lliw sydd yn yr enfys.

Wel mae'r tywydd yn oeri ac fel y soniais mae'r dail yn dechrau newid eu lliwiau. 'Dw i'n hoff iawn o dymor yr Hydref gan fod hi'n amser i mi gael cyfle i orffwysu a thacluso cyn y gaeaf. Beth am fynd ati i liwio'r llun hydrefol hwn a'i ddanfon yn ôl ataf i cyn Hydref 26ain.

Hwyl am y tro,


Lincyn Lincyn



Enillydd
y mis!

Megan
Dafydd

Ariennir yn rhannol gan **Lywodraeth Cymru**



Enw:

Oed:

Cyfeiriad:



**GWNA DY APWYNTIAD YN
YSBYTY GWAETHA'R BYD!**



YSBYTY HOSPITAL

5.00

BOB DYDD IAU

s4c.cymru/stwnsh

Does byth eiliad dawel yn Ysbyty Hospital a bydd digon o hwyl a chwerthin yn y gyfres newydd sbon. Wyt ti'n gallu cwblhau'r chwila'r cyn i'r criw ddychwelyd ar 8 Hydref?

Th	E	M	N	A	T	U	D	U	R	W	G
O	R	O	H	L	A	T	J	O	G	W	B
W	C	Dd	Th	U	T	A	S	E	W	O	W
A	L	I	I	Ll	W	B	A	I	E	I	R
I	E	O	D	P	S	L	L	U	L	D	Dd
N	F	N	U	L	R	E	Y	G	Y	A	Y
F	Y	S	J	O	S	D	Ch	N	Y	R	S
A	D	O	T	I	Ch	W	Th	F	D	L	B
T	Ch	C	N	S	L	G	I	I	P	E	Y
S	O	E	D	A	I	L	N	Rh	O	N	T
D	L	G	S	L	H	N	N	E	E	W	Y
G	W	A	Ll	G	O	R	A	E	N	I	P

ysbyty
Glenise
Tudur
radio
DJ Sal
gwely

Lois
moddion
doctor
Gwallgo
Owain
nyrs


Anni
clefyd
salwch
Judith
Poen
Tabled

Bowlwyr Llwyddiannus



Tîm bowllo hŷn Llanbedr a enillodd cynghrair hŷn Bowllo Ceredigion unwaith eto eleni.

Dyddiadur Amaeth 2016



£6.99

Y dyddiadur amaeth Cymreig cyntaf erioed!

Dyddiadur dwyieithiog A4 gyda cyferiadur amaethyddol gyda gofod ar gyfer nodiadau.

Ar gael nawr yn eich siop lyfrau leol

ylLolfa www.ylolfaf.com

Gorsaf
Brawf
MOT

GAREJ BRONDEIFI



Heol Llanfair Road, Llanbedr, SA48 8JX

- * Gwasanaeth trwsio ac atgyweirio
- * Teiars am brisiau cystadleuol
- * Ceir newydd ac ail law ar werth
- * Batris * Brecks * Egsost
- * Gorsaf Brawf MOT Ceir a Beiciau Modur



Peiriant Golchi Ceir Poeth

01570 422305
07974 422 305

CYFRi

CYNGHORWYR ARIANNOL ANNIBYNNOL
INDEPENDENT FINANCIAL ADVISERS

23 Stryd y Coleg, Llanbedr Pont Steffan, SA48 7DY

T 01570 423823 E post@cyfri.co.uk W www.cyfri.co.uk

Am gyngor diduedd annibynnol ar amryw o faterion ariannol, yn cynnwys:
Buddsoddiadau, Pensiynau, Treth Etifeddiaeth, Yswiriant Bywyd, Yswiriant salwch difrifol ac Yswiriant diogelwch incwm.

Gary Davies BSc(Hons), Dip IP PFA

Beca Russell BSc(Hons), MSc(Hons), Dip PFS

Cysylltwch â ni am wasanaeth proffesiynol y gallwch ymddiried ynddo.

Mae'n bosib i werth eich buddsoddiadau a'ch pensiwn gostwng yn ogystal â chynyddu. Nid ydych yn sicr o gael eich buddsoddiad gwreiddiol yn ôl. Os nad ydych yn cadw lan gyda'ch ad-daliadau mae'n bosib i chi dderbyn gorchymyn aifeddiannu am eich cartref.

S4C

Ar y Dibyn

**9.30
8 Hydref**

Brwydro yn erbyn yr elfennau dros fynyddoedd a llynnoedd – bydd wyth cystadleuydd yn wynebu cyfweiliad caletaf eu bywyd am swydd fel arweinydd antur awyr agored.

#arydibyn
s4c.cymru



Y rhai a fu'n cerdded o Lan-rhyd, Parc-y-rhos i'r Oedfa Ddathlu yng Nghapel Bethel ar achlysur dathlu 175 o flynyddoedd achos yr Annibynwyr yn yr ardal.




Y rhai a fu'n cerdded o Lanbed i Dregaron a nôl er mwyn codi arian tuag at Ambiwlans Awyr Cymru. Taith a drefnwyd gan Ganolfan Hamdden Llanbed.

Angen cyrraedd mannau hyfforddiant, addysg, cyflogaeth? ... Bwcabus – caniatáu ichi deithio i ble bynnag a phryd bynnag y bydd angen



Gwasanaeth yw Bwcabus a fydd yn codi teithwyr o'u harosfannau bysiau agosaf, serch hynny gall teithwyr sydd ag anawsterau symud gael eu casglu a'u gollwng yn/neu'n agos at eu cyfeiriad cartref cyhyd â bod man diogel ac ymarferol i wneud hynny.

Mae'r gwasanaeth yn galluogi pobl i deithio rhwng trefi a phentrefi lleol neu i gysylltu â phrif wasanaethau bysiau er mwyn teithio ymhellach.



Gwasanaeth yn gweithredu o ddydd Llun i ddydd Sadwrn o 7am – 7pm



Cronfa Amaethyddol Ewrop ar gyfer Datblygu Gwledig Ewrop yn Buddsoddi mewn Ardaloedd Gwledig
The European Agricultural Fund for Rural Development: Europe Investing in Rural Areas



Llywodraeth Cymru
Welsh Government